# Arweiniad ar gyfer arolygu hyfforddiant cychwynnol i athrawon

o Fedi 2010

Diweddarwyd Medi 2015

Darllenwch fwy yn estyn.llyw.cymru

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith; a
- dysgu yn y sector cyfiawnder.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Llywodraeth Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Cyflwyniad** **1**

Diben yr arweiniad hwn 1
Y sail gyfreithiol ar gyfer arolygu hyfforddiant cychwynnol i athrawon (HCA) 1

**Rhan 1: Cynnal arolygiadau** **3**

Cyflwyniad 3
Egwyddorion arolygu 3
Cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr 3
Disgwyliadau darparwyr 4
Iechyd a diogelwch 4
Ymateb i honiad ynghylch diogelu 4
Dull arolygu 5
Yr Ystafell Arolygu Rithwir 5
Y tîm arolygu 5
Cysylltu â’r darparwr cyn yr arolygiad 6
Cynllunio’r arolygiad a pharatoi’r tîm 7
Yn ystod yr arolygiad 8
Bodloni gofynion statudol 11
Ar ôl yr arolygiad 11
Sicrhau ansawdd arolygiadau 12

**Rhan 2: Llunio barnau** **14**

Ynglŷn â’r darparwr HCA 14
Crynodeb 14
Disgrifiadau barn 15
Argymhellion 15

**Cwestiynau allweddol a dangosyddion ansawdd** **16**

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? 16
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? 22
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? 31

**Atodiad 1: Y Fframwaith Arolygu Cyffredin**
**Atodiad 2: Ffynonellau tystiolaeth**
**Atodiad 3: Rheoliadau ac arweiniad**
**Atodiad 4: Arweiniad ar ddefnyddio data mewn arolygiadau HCA**
**Atodiad 5: Arweiniad ar weithgarwch dilynol**

# Cyflwyniad

## Diben yr arweiniad hwn

Mae'r arweiniad hwn yn amlinellu'r ffordd y bydd Estyn yn arolygu pob darparwr hyfforddiant cychwynnol i athrawon (HCA) yng Nghymru ar gyfer y cylch arolygu chwe blynedd o 2010. Cafodd ei adolygu yn ystod 2012-2013 er mwyn paratoi ar gyfer ail hanner y cylch arolygu.

Dibenion arolygu yw:

- darparu atebolrwydd ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill trwy ein hadrodd cyhoeddus ar ddarparwyr;
- hyrwyddo gwelliant mewn addysg a hyfforddiant; a
- llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r arolygiaeth yn cynnal arolygiad craidd ar gyfer pob darparwr ym mhob sector addysg a hyfforddiant. Mae'r arweiniad hwn yn esbonio sut byddwn yn cynnal arolygiadau craidd. Pan fo'r arolygiad yn nodi pryder mewn perthynas â safonau, ansawdd addysg a hyfforddiant neu arweinyddiaeth a rheolaeth, bydd yr arolygiaeth yn cynnal gweithgarwch dilynol gyda'r darparwr. Mae'r arweiniad hwn yn cynnwys gwybodaeth am weithgarwch dilynol yn Atodiad 6.

Bydd yr arolygiaeth yn ystyried bod pob un o'r Canolfannau Addysg Athrawon (CAA) newydd yng Nghymru yn un darparwr HCA. Byddwn yn arolygu'r sefydliadau sy'n ymwneud ar y cyd â phob canolfan ar yr un pryd. Byddwn yn ysgrifennu un adroddiad yn ymdrin â'r holl ddarpariaeth HCA a gynigir gan y ganolfan.

Mae'r arweiniad hwn yn cynnwys dwy ran sydd ynglŷn â:

- chynnal arolygiad; a
- llunio barnau.

Gall darparwyr HCA yng Nghymru ddefnyddio'r arweiniad hwn i weld sut mae arolygiadau yn gweithio a'u helpu wrth gynnal eu hunanarfarnu eu hunain. Yn ychwanegol, gall darparwyr HCA ddefnyddio arweiniad hunanarfarnu'r arolygiaeth sy'n cyd-fynd â safonau'r Statws Athro Cymwys (SAC), y gofynion ar gyfer darparu cyrsiau hyfforddiant cychwynnol i athrawon a'r Fframwaith Arolygu Cyffredin (Medi 2010).

Mae rhagor o wybodaeth ac arweiniad am arolygiadau ar gael ar wefan Estyn, sef [www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru).

## Y sail gyfreithiol ar gyfer arolygu hyfforddiant cychwynnol i athrawon

O dan adran 18C Deddf Addysg 1994 (wedi'i fewnosod gan baragraff 13 Atodlen 14 Deddf Addysg 2005), gall Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru arolygu ac adrodd ar:

- unrhyw hyfforddiant cychwynnol i athrawon, neu gynorthwywyr addysgu arbenigol, ar gyfer ysgolion; ac

- unrhyw hyfforddiant mewn swydd i athrawon neu gynorthwywyr o'r fath, sy'n cael ei ddarparu gan ddarparwr hyfforddiant yng Nghymru.

Mae ein gwaith arolygu hefyd yn ystyried deddfwriaeth sy'n rheoli'r arolygiaeth a'r darparwyr addysgol eu hunain, gan gynnwys, er enghraifft, Deddf yr Iaith Gymraeg. Cynhelir arolygiadau gan Arolygwyr Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru, a/neu arolygwyr ychwanegol. Gall arolygwyr gael eu cynorthwyo gan bobl eraill fel y gwêl y Prif Arolygydd yn dda.

**Achredu sefydliadau sy'n darparu HCA**

O dan Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004, mae gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) gyfrifoldeb penodol am achredu HCA ar gyfer athrawon ysgol, yn unol â meini prawf a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.[1] Yn hyn o beth, rhaid i CCAUC roi ystyriaeth briodol i dystiolaeth gan Estyn (paragraff 6, 2006, Rhif 50). Bydd yr arolygiaeth yn hysbysu CCAUC os bernir nad yw'r ddarpariaeth yn bodloni gofynion achredu. Mae gweithdrefnau ar gyfer achredu darparwyr HCA newydd ac ar gyfer mynd i'r afael â diffyg cydymffurfio a thynnu achrediad yn ôl ar gael gan CCAUC ar gais neu ar ei wefan (http://www.hefcw.ac.uk/home/home_cy.aspx)

Mae gweithdrefnau CCAUC ar gyfer achredu, mynd i'r afael â diffyg cydymffurfio neu dynnu achrediad yn ôl yn wahanol i'r trefniadau ar gyfer arolygu a graddio safonau ac ansawdd y ddarpariaeth. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, mae hefyd yn debygol nad yw'r ddarpariaeth y bernir ei bod yn anfoddhaol mewn un neu fwy o gwestiynau allweddol neu ddangosyddion ansawdd, yn bodloni gofynion achredu. Yn yr achos hwn, bydd ailarolygiad a gweithdrefnau CCAUC ar gyfer mynd i'r afael â diffyg cydymffurfio gyda meini prawf achredu yn digwydd ochr yn ochr â'i gilydd.

[1] Meini Prawf ar gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 2006 (2006 Rhif 50), fel y'u diwygiwyd gan y Meini Prawf ar gyfer Achrediad Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (Diwygio) 2006 (2006 Rhif 75)

# Rhan 1:  Cynnal arolygiadau

## Cyflwyniad

Mae’r adran hon wedi’i hamlinellu mewn ffordd sy’n adlewyrchu dilyniant y gwaith cyn, yn ystod ac ar ôl arolygiad craidd.

Mae’r arolygydd cofnodol yn gyfrifol am gynnal a rheoli’r arolygiad, ac am yr adroddiad arolygu.  Er bod yr arweiniad hwn yn canolbwyntio’n bennaf ar rôl yr arolygydd cofnodol, rhaid i holl aelodau’r tîm gydymffurfio â’r un gofynion arolygu.

## Egwyddorion arolygu

Bydd arolygwyr:

- yn sicrhau bod arolygu o ansawdd uchel ac yn ymateb i anghenion pob dysgwr;
- yn sicrhau bod barnau yn gadarn, yn ddibynadwy, yn ddilys ac wedi’u seilio ar dystiolaeth uniongyrchol;
- yn cynnwys darparwyr HCA a’u hysgolion partneriaeth yn llawn yn y broses arolygu, gan gynnwys defnyddio enwebeion;
- yn defnyddio adroddiad hunanarfarnu’r darparwr HCA fel y man cychwyn ar gyfer arolygu ac yn nodi materion allweddol ar gyfer ymchwilio iddynt er mwyn llunio barnau ar ddilysrwydd ei ganfyddiadau;
- yn cynnwys arolygwyr cymheiriaid yn y broses arolygu;
- yn sicrhau cyn lleied o ofynion ag y bo modd ar gyfer dogfennaeth a pharatoi gan y darparwr HCA;
- yn cael safbwynt y dysgwyr a safbwynt rhanddeiliaid eraill;
- yn cymhwyso egwyddor cydraddoldeb i’r Gymraeg a’r Saesneg yn ein holl waith arolygu, gan ddarparu gwasanaethau dwyieithog lle bynnag y bo’n briodol; a
- bod yn adeiladol wrth nodi a chefnogi darparwyr HCA sydd â diffygion pwysig.

## Cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr

Dylai arolygwyr gynnal y safonau uchaf posibl yn eu gwaith.  Rhaid i bob arolygydd fodloni’r safonau yng Nghod Ymddygiad Estyn.  Wrth gynnal yr arolygiad, dylai arolygwyr:

- wneud eu gwaith gyda didwylledd, cwrteisi a sensitifrwydd priodol;
- arfarnu gwaith y darparwr yn wrthrychol;
- adrodd yn onest, yn deg ac yn ddiduedd;
- cyfathrebu’n glir ac yn agored;
- gweithredu er lles y dysgwyr; a
- pharchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth sy’n dod i law yn ystod eu gwaith.

Mae’n bwysig bod arolygwyr yn barnu effeithiolrwydd darpariaeth ac arweinyddiaeth ar sail eu cyfraniad at ddeilliannau ac nid ar sail unrhyw hoffter o ddulliau penodol. Yr allwedd i’r farn yw p’un a yw’r dulliau a’r trefniadaeth yn addas i’r diben o gyflawni safonau gwaith uchel i bob dysgwr.

Dylai arolygwyr roi gwybod i Estyn am unrhyw achos canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau cyn gynted ag y byddant ar yr arolygiad o’r darparwr.

## Disgwyliadau darparwyr

Er mwyn i arolygu a rheoleiddio fod yn adeiladol ac yn fuddiol, mae'n bwysig bod arolygwyr a darparwyr yn sefydlu ac yn cynnal amgylchedd gweithio proffesiynol yn seiliedig ar gwrteisi, parch ac ymddygiad proffesiynol ar y ddwy ochr. Disgwylir i arolygwyr gydymffurfio â Chod Ymddygiad Estyn, ond disgwyliwn hefyd i ddarparwyr:

- fod yn gwrtais ac yn broffesiynol;
- cymhwyso'u codau ymddygiad eu hunain wrth drafod gydag arolygwyr;
- galluogi arolygwyr i gynnal eu harolygiad mewn modd agored a gonest;
- galluogi arolygwyr i arfarnu'r ddarpariaeth yn wrthrychol yn erbyn y Fframwaith Arolygu Cyffredin;
- defnyddio systemau electronig Estyn i reoli arolygiadau, yn ôl yr angen;
- darparu tystiolaeth a fydd yn galluogi arolygwyr i adrodd yn onest, yn deg ac yn ddibynadwy ynghylch eu darpariaeth;
- cynnal trafodaeth bwrpasol gyda'r arolygydd cofnodol a'r tîm arolygu;
- cydnabod bod angen i arolygwyr arsylwi arfer a siarad â staff, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill heb bresenoldeb rheolwr neu uwch arweinydd;
- tynnu unrhyw bryderon ynglŷn â'r arolygiad i sylw arolygwyr mewn modd amserol ac addas drwy'r enwebai neu'r uwch arweinydd;
- gweithio gydag arolygwyr i sicrhau cyn lleied o aflonyddu a straen ag y bo modd trwy gydol yr arolygiad; a
- sicrhau iechyd a diogelwch arolygwyr tra byddant ar eu safle.

Adeg yr hysbysiad ynghylch yr arolygiad, dylai darparwyr adolygu cyfansoddiad y tîm arolygu. Cyfrifoldeb darparwyr yw amlygu unrhyw achos gwirioneddol o wrthdaro buddiannau cyn dechrau eu harolygiad.

## Iechyd a diogelwch

Bydd arolygwyr yn cynnal arolygiadau yn unol ag arweiniad yr arolygiaeth ar iechyd a diogelwch.

Os bydd arolygwyr yn sylwi ar unrhyw beth sydd yn eu barn nhw yn achosi perygl amlwg i ddiogelwch staff, ymwelwyr neu ddysgwyr, dylent rybuddio rheolwyr yn y darparwr sy'n cael ei arolygu. Dylai arolygwyr roi gwybod i reolwyr hefyd os sylwir ar fygythiadau llai amlwg. Ym mhob achos, dylai arolygwyr wneud nodyn electronig ar wahân o'r bygythiad a bod y rheolwyr wedi cael gwybod amdano. Dylent roi copi o hwn i'r swyddog arweiniol ar gyfer iechyd a diogelwch yn yr arolygiaeth. Dylai arolygwyr adrodd ar achosion amlwg o dorri deddfwriaeth iechyd a diogelwch yng Nghwestiwn Allweddol 2.

## Ymateb i honiad ynghylch diogelu

Os caiff arolygydd wybod am honiad/amheuaeth ynghylch plentyn, person ifanc neu oedolyn sy'n agored i niwed, dylai'r arolygydd hwnnw ddilyn y gweithdrefnau fel y maent wedi'u hamlinellu yn fersiwn gyfredol 'Polisi a gweithdrefnau Estyn ar gyfer diogelu' sydd ar gael ar wefan Estyn.

## Dull arolygu

Mae'r arweiniad hwn yn amlinellu'r gweithdrefnau ar gyfer arolygiadau craidd o ddarparwyr HCA. Bydd yr arolygiadau hyn yn cael eu hategu gan weithgarwch dilynol yn y darparwyr HCA hynny y canfuwyd, trwy eu harolygiad craidd, eu bod yn tanberfformio.

Y man cychwyn ar gyfer arolygu yw arfarniad y darparwr HCA o'i berfformiad ei hun, wedi'i gefnogi gan wybodaeth berthnasol am berfformiad. Ni fydd arolygwyr yn arolygu pob agwedd ar y gwaith yn fanwl yn ystod arolygiad craidd. Byddant yn cymryd sampl o dystiolaeth i brofi arfarniad y darparwr ei hun o'i waith. Bydd yr adroddiad hunanarfarnu yn arwain sut mae'r tîm yn cymryd sampl o'r dystiolaeth, ond bydd y prif ffocws bob amser ar y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni.

Y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr a'r cynnydd a wnânt yw'r mesur allweddol o ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant y maent wedi'i gael ac o effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwr HCA. Bydd arolygiadau yn canolbwyntio ar anghenion dysgwyr ac effaith addysg a hyfforddiant ar godi safonau.
Byddwn yn arolygu pob darparwr HCA wedi'i achredu yng Nghymru yn ystod rhaglen chwe blynedd o arolygiadau.

Gallai'r cyfnod arolygu a nifer yr arolygwyr amrywio gan ddibynnu ar faint a threfniadaeth y ddarpariaeth.

Bydd adroddiadau arolygu yn ymdrin â phob cwestiwn allweddol, dangosydd ansawdd ac agwedd ar y Fframwaith Arolygu Cyffredin.[2]

Cynhelir pob arolygiad yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg, sydd ar gael ar wefan yr arolygiaeth, sef www.estyn.llyw.cymru ac mae'n cael ei gefnogi gan arweiniad atodol ar arolygu datblygu'r iaith Gymraeg.

## Yr Ystafell Arolygu Rithwir

Bydd yr arolygiaeth yn defnyddio system electronig i reoli nifer o agweddau ar yr arolygiad. Enw'r system hon yw'r 'Ystafell Arolygu Rithwir' (YAR). System ar y we yw hon sy'n galluogi darparwyr i lwytho gwybodaeth i fyny i'r arolygiaeth a lawrlwytho arweiniad ar y broses arolygu gan yr arolygiaeth. Hefyd, yr YAR yw'r lle y gall darparwyr gael yr arweiniad i enwebeion ar baratoi ar gyfer yr arolygiad a'r holiaduron ôl-arolygiad.

Mae cyfres gynhwysfawr o ddogfennau arweiniad a fideos ar gael ar wefan Estyn i helpu darparwyr i ddeall a defnyddio'r system.

## Y tîm arolygu

Bydd timau arolygu yn cael eu harwain gan arolygydd cofnodol (AEM neu arolygydd ychwanegol), gydag aelodau eraill o'r tîm yn cael eu cymryd o blith AEM neu arolygwyr ychwanegol. Gallai arolygwyr ychwanegol fod ar secondiad neu gontract i'r arolygiaeth, a staff sy'n gweithio yn y sector ar hyn o bryd (arolygwyr cymheiriaid).

[2] Gweler Atodiad 1: siart y Fframwaith Arolygu Cyffredin.

Gellir cymryd arolygwyr cymheiriaid, yn achos HCA, o blith staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y darparwr HCA neu o blith staff sy'n ymwneud â'r rhaglenni hyfforddi (pennaeth, uwch fentor neu fentor) mewn ysgolion partneriaeth.[3]

Mae'r arolygydd cofnodol yn rheoli'r tîm arolygu a'r broses arolygu gyfan, ac ef/hi yw'r unigolyn cyswllt cyntaf ar gyfer pawb sy'n cymryd rhan yn yr arolygiad.

Bydd y darparwr HCA yn cael ei wahodd i ddewis uwch aelod o staff, o'r enw'r enwebai, i weithio gyda'r tîm arolygu. Bydd gan yr enwebai ddigon o hynafedd i weithredu fel yr unigolyn cyswllt rhwng y darparwr a'r tîm arolygu.

## Cysylltu â'r darparwr cyn yr arolygiad

Bydd y darparwr HCA yn cael hysbysiad ffurfiol am yr arolygiad wyth wythnos cyn iddo ddechrau. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod yr arolygiaeth yn gallu defnyddio staff yn briodol ar gyfer y rhannau o'r arolygiad yn y brifysgol ac yn yr ysgol, byddwn yn gofyn i ddarparwyr roi eu hamserlenni dros dro i ni ar gyfer y flwyddyn academaidd y cynhelir yr arolygiad ynddi, fel arfer yn ystod tymor yr haf cyn yr arolygiad.

Pan fyddwn wedi dweud wrth y darparwr HCA yn ffurfiol am yr arolygiad ohono sydd ar fin digwydd, bydd yr arolygiaeth yn cysylltu â'r darparwr HCA dros y ffôn i wneud y trefniadau ar gyfer yr arolygiad.

Yn ystod y drafodaeth hon, bydd yr arolygiaeth:

- yn esbonio diben yr arolygiad ac yn trafod rhaglen amlinellol ar gyfer yr arolygiad;
- yn trafod y wybodaeth benodol sydd ei hangen cyn yr arolygiad ac yn gwneud y trefniadau ar gyfer ei chael ar ffurf electronig trwy'r Ystafell Arolygu Rithwir;
- yn gofyn a oes unrhyw faterion neu risgiau y dylai'r tîm fod yn ymwybodol ohonynt ac yn gofyn am sesiwn friffio gyffredinol ynghylch iechyd a diogelwch ar gyfer y tîm ar ddechrau'r arolygiad;
- yn pennu a yw'r darparwr HCA yn dymuno cael enwebai, ac os felly, yn cytuno ar rôl yr enwebai;
- yn trefnu bod tystiolaeth ategol ar gael, gan gynnwys unrhyw samplau o waith dysgwyr;
- yn sicrhau bod gweithdrefnau cytûn ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu gŵynion a allai godi yn ystod yr arolygiad;
- yn trefnu bod uwch aelodau o staff sy'n gyfrifol am HCA yn cyfarfod â'r tîm arolygu;
- yn cytuno ar y trefniadau ar gyfer llenwi holiaduron boddhad rhanddeiliaid;
- yn gwneud unrhyw drefniadau domestig, fel canolfan ar gyfer yr arolygwyr a pharcio;
- yn gwneud trefniadau ar gyfer adrodd yn ôl ynghylch canfyddiadau'r arolygiad; ac
- yn hysbysu'r darparwr y bydd materion allweddol y trefniadau yn cael eu cadarnhau yn ysgrifenedig.

---

[3] Mae'r arolygiaeth yn bwriadu cynnwys hyfforddeion neu athrawon sydd newydd gymhwyso fel rhan o'r tîm arolygu lle bo'n briodol.

Bydd yr arolygiaeth yn gofyn am y wybodaeth ganlynol cyn gynted ag y bo modd:

- gwybodaeth gefndir allweddol am y darparwr HCA;
- copi o unrhyw wybodaeth ddiweddar am y darparwr sydd ar gael gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA);
- copi o adroddiad hunanarfarnu a chynllun gwella diweddaraf y darparwr HCA; a
- manylion am amserlenni'r darparwr HCA sydd wedi'u cadarnhau ar gyfer cyfnod yr arolygiad.

Bydd yr arolygiaeth yn hysbysu'r darparwr HCA os bydd angen samplau o waith dysgwyr o'r flwyddyn flaenorol yn ystod yr arolygiad.

Bydd yr arolygiaeth yn gofyn i'r darparwr HCA hysbysu partneriaid a rhanddeiliaid eraill am yr arolygiad. Bydd yr arolygiaeth yn hysbysu'r darparwr HCA am y gweithdrefnau ar gyfer cael safbwyntiau dysgwyr a rhanddeiliaid.

Pan hysbysir darparwyr HCA am arolygiad, byddant yn cael gwybodaeth am sut i gynnal arolwg o hyfforddeion. Bydd canlyniadau'r arolygon hyn yn ffurfio rhan o'r dystiolaeth cyn-arolygiad. Bydd sylwebaeth ar ymatebion yr hyfforddeion yn cael ei chynnwys mewn atodiad i'r adroddiad arolygu. Yn ychwanegol, gall arolygwyr ddefnyddio gwybodaeth o'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (AMC) neu arolygon eraill a gynhelir gan y darparwr HCA fel rhan o'u gweithdrefnau arferol.

## Cynllunio'r arolygiad a pharatoi'r tîm

Wrth ystyried adroddiad hunanarfarnu'r darparwr HCA ac unrhyw wybodaeth sydd gan yr arolygiaeth eisoes, bydd yr arolygydd cofnodol yn cynllunio'r arolygiad ac yn dyrannu cyfrifoldebau i aelodau o'r tîm arolygu. Bydd yr arolygiaeth yn ystyried unrhyw dystiolaeth gan y QAA pan fydd ar gael ac yn berthnasol i'r arolygiad.

Bydd yr arolygydd cofnodol yn cwblhau sylwebaeth cyn-arolygiad (SCA). Bydd hyn yn cynnwys rhagdybiaethau wedi'u seilio ar yr adroddiad hunananarfarnu a gwybodaeth arall, a byddant yn cael eu defnyddio i gyfeirio trywyddau ymholi yn ystod yr arolygiad. Bydd y SCA yn cael ei hanfon i'r enwebai ar y diwrnod gwaith olaf cyn rhan gyntaf yr arolygiad.

Mae arolygiadau yn cynnwys arsylwi addysgu hyfforddeion a'u gwaith gyda disgyblion, yr hyfforddiant a ddarperir gan diwtoriaid a mentoriaid, a gwaith arall gyda hyfforddeion. Disgwylir i ddarparwyr HCA anfon cynllun llawn o'r holl ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd academaidd priodol at yr arolygydd cofnodol. Ar sail y wybodaeth a gafwyd, bydd arolygwyr yn dewis sampl o sesiynau wedi'u tiwtora i'w harsylwi ac arfarnu. Gall arolygwyr hefyd ddewis grŵp o hyfforddeion i'w holrhain yn ystod yr arolygiad. Bydd y grŵp yn myfyrio ar ystod gwaith y darparwr HCA ac yn cefnogi'r ymchwiliad i drywyddau ymholi a awgrymwyd gan ragdybiaethau cychwynnol arolygwyr.

Ni fydd arolygwyr fel arfer yn arsylwi hyfforddeion y bernir eu bod, yn eu profiad ysgol olaf, yn debygol o fethu eu hyfforddiant. Bydd angen i ddarparwyr HCA, fodd bynnag, ddangos tystiolaeth i arolygwyr o'r modd y maent wedi monitro cynnydd yr hyfforddeion a'r cymorth y maent wedi'i roi i helpu'r hyfforddeion i wella.

## Yn ystod yr arolygiad

### Y cyfarfod tîm cychwynnol

Yng nghyfarfod cychwynnol y tîm arolygu, dylid cael sesiwn friffio iechyd a diogelwch gan y darparwr HCA. Ar ôl hynny, dylai'r tîm drafod y strategaeth ar gyfer yr arolygiad. Dylai hyn ddechrau gydag adroddiad hunanarfarnu'r darparwr HCA a'r SCA.

Bydd arolygwyr yn cymryd sampl o'r arfarniadau a wnaed gan y darparwr HCA, ac yn eu profi a'u dilysu. Dylai'r trafodaethau ganolbwyntio ar y dystiolaeth y mae angen ei hadolygu. Bydd hyn yn cynnwys arsylwadau, samplau o waith hyfforddeion a chyfweliadau gyda hyfforddeion, staff a rhanddeiliaid eraill.

### Casglu ac adolygu tystiolaeth arolygu

Bydd arolygwyr yn arfarnu'r ddarpariaeth ac yn llunio dwy farn allweddol gyffredinol. Bydd y barnau cyffredinol hyn yn deillio o'r barnau a luniwyd ar y tri chwestiwn allweddol. Mae pob cwestiwn allweddol wedi'i rannu'n ddangosyddion ansawdd sydd â nifer o agweddau.

Bydd y tîm yn cynllunio'r arolygiad er mwyn iddynt allu ymdrin â'r dangosyddion ansawdd a dilyn y trywyddau ymholi a nodwyd sy'n benodol i'r darparwr HCA.

Bydd y tîm yn sicrhau bod ganddynt ddigon o amser i adolygu'r dystiolaeth allweddol sydd ei hangen i lunio barnau. Bydd angen i'r tîm sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar y dystiolaeth allweddol y gellir ei defnyddio i gadarnhau ei farnau.

Dyma'r prif fathau o dystiolaeth:

- adroddiadau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol, gan gynnwys y rhai gan arholwyr allanol a'r QAA, lle bo'n briodol ac ar gael;
- tystiolaeth ddogfennol, gan gynnwys data ar berfformiad a chynnydd dysgwyr;
- sesiynau addysgu neu hyfforddi a gweithgareddau eraill;
- samplau o waith hyfforddeion;
- safbwyntiau hyfforddeion ac ysgolion partneriaeth; a
- thrafodaethau gyda thiwtoriaid, mentoriaid, penaethiaid, arweinwyr a rheolwyr, uwch staff prifysgol ac eraill.

Mae manylion y prif ffynonellau tystiolaeth wedi'u cynnwys yn Atodiad 2.

Bydd y tîm yn defnyddio arsylwadau uniongyrchol o waith lle bynnag y bo modd i gasglu tystiolaeth i gefnogi barnau. Pan gânt eu defnyddio, bydd arolygwyr fel arfer yn treulio o leiaf 30 munud yn arsylwi gweithgaredd dysgu. Gall arolygwyr ddewis grŵp ychwanegol o waith dysgwyr i ddiwallu anghenion trywydd ymholi penodol.

Mae llais dysgwyr yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth o'u cyflawniad, eu hagweddau a'u lles. Bydd trafodaethau gyda dysgwyr yn gyfle i archwilio gwybodaeth a dealltwriaeth hyfforddeion o'u gwaith, a pha mor dda y maent yn teimlo bod y darparwr HCA yn eu cynorthwyo ac yn cyfrannu at eu lles.

Dylai'r hyfforddeion fydd yn cael eu cyfweld gael eu dewis yn ofalus. Byddant yn cael eu dewis gan y tîm arolygu er mwyn darparu tystiolaeth ar gyfer trywydd ymholi penodol. Bydd arolygwyr yn gofyn am restrau o ddysgwyr o'r darparwr HCA ac wedyn yn dewis y rhai y maent yn dymuno'u cyfweld. Dylai'r darparwr HCA ddarparu'r rhestrau ar sail categorïau amrywiol, er enghraifft, y rhai ag anghenion penodol, siaradwyr Cymraeg a grwpiau ethnig lleiafrifol ar draws pob rhaglen HCA. Y nod yw archwilio trwy'r trafodaethau hyn i ba raddau y mae pob un o'r hyfforddeion, beth bynnag fo'u cefndir neu'u hanghenion, wedi cael y cyfle i gyflawni eu potensial a bodloni eu hanghenion dysgu.

Dylai darparwyr HCA drefnu bod gwybodaeth ar gael i'r tîm arolygu am y safonau a gyflawnir gan hyfforddeion ar adegau amrywiol yn eu hyfforddiant, gan gynnwys canlyniadau unrhyw brofion ac asesiadau sgrinio cychwynnol. Bydd hyn yn helpu arolygwyr i farnu cynnydd hyfforddeion a llunio safbwynt am y safonau y mae hyfforddeion yn eu cyflawni o'i gymharu â'u mannau cychwyn.
Bydd angen i'r tîm ystyried barn rhanddeiliaid ar y darparwr HCA a phrofi dilysrwydd y safbwyntiau hynny yn ystod yr arolygiad er mwyn llywio barnau.

Mae'n bwysig bod yr arolygydd cofnodol yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd yn ystod y cyfnod yn y brifysgol gydag uwch staff sy'n goruchwylio hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn uniongyrchol i gytuno ar drefniadau newydd, trafod materion sy'n peri pryder, egluro materion arolygu a chael rhagor o wybodaeth. Yn ychwanegol, bydd yr arolygydd cofnodol yn trafod canfyddiadau sy'n codi gydag uwch arweinwyr HCA.

### Cofnodi tystiolaeth arolygu

Bydd arolygwyr yn defnyddio'r ffurflenni canlynol i gofnodi tystiolaeth a barnau:

- Ffurflen Arsylwi yn yr Ysgol (FfAYY) ar gyfer arsylwi addysgu hyfforddeion yn yr ysgol;
- Ffurflen Arsylwi yn y Brifysgol (FfAYB) ar gyfer arsylwi sesiynau addysgu yn y brifysgol;
- Ffurflen Dystiolaeth (FfD) ar gyfer cofnodi tystiolaeth arall a gafwyd o drafodaethau gyda hyfforddeion, cyfweliadau gyda thiwtoriaid, mentoriaid a phenaethiaid, cyfweliadau gydag arweinwyr a rheolwyr, archwilio dogfennaeth, gwybodaeth am berfformiad a samplau o waith hyfforddeion' ac
- Ffurflenni Barnau (FfBau) i grynhoi'r dystiolaeth o'r arolygiad.

Lle bynnag y bo'n bosibl ac yn ymarferol, bydd arolygwyr yn llenwi eu ffurflenni barnau yn electronig fel rhan o system electronig Estyn ar gyfer casglu, coladu a chofnodi canfyddiadau arolygu.

### Cyfarfodydd tîm

Prif ddiben cyfarfodydd tîm yw llunio safbwynt corfforaethol, cywir sydd wedi'i brofi'n drylwyr am safonau, ansawdd ac arweinyddiaeth. Bydd y tîm arolygu cyfan yn cytuno ar farnau corfforaethol sydd wedi'u seilio ar ddigon o dystiolaeth ddilys a dibynadwy. Bydd cyfarfodydd yn cynnwys agendâu clir a bydd cyfleoedd i arolygwyr:

- brofi'r barnau yn adroddiad hunanarfarnu'r darparwr HCA;
- trafod materion sy'n codi a thrywyddau ymholi;

- datrys materion a rhagdybiaethau cyn-arolygiad;
- trafod unrhyw fylchau yn sail y dystiolaeth; ac
- ystyried prif ganfyddiadau ac argymhellion yr arolygiad.

**Deialog broffesiynol**

Ar ddiwedd sesiwn arsylwi, dylai arolygwyr, cyhyd ag y bo’n ymarferol, gael rhywfaint o ddeialog broffesiynol gryno â’r aelod staff am y gwaith a welwyd. Mewn rhai achosion, efallai bydd angen cael trafodaeth lawnach yn ddiweddarach ac, os felly, dylid trefnu hyn ar ddiwedd y sesiwn. Dylid dweud wrth yr aelod staff dan sylw mai barnau dros dro yw’r rhain sydd wedi dod i’r amlwg ar un agwedd ar y dystiolaeth, ac y gellir diwygio’r rhain, ar ôl myfyrio arnynt, ar ôl craffu ar waith hyfforddeion neu siarad â nhw, neu o ganlyniad i safoni o fewn y tîm. Am y rheswm hwn, ni ddylai arolygwyr drafod unrhyw arfarniadau cyffredinol dros dro, ond dylent geisio canolbwyntio ar unrhyw gryfderau neu feysydd i’w datblygu mewn perthynas â’r gwaith a welwyd.

Mae’n rhesymol i hyfforddeion ddisgwyl i arolygwyr gael drafodaeth broffesiynol fer ar ôl arsylwi eu haddysgu. Rhaid i arolygwyr gofio nad ydynt yn arolygu’r hyfforddai ar ei ben/phen ei hun, ond fel rhan o’r dystiolaeth o allu’r darparwr HCA i ddarparu hyfforddiant cydlynus. Dylai’r arolygydd, cyhyd ag y bo modd, gael y sgwrs broffesiynol hon â’r hyfforddai ar ôl iddynt arsylwi’r mentor yn adrodd yn ôl.

Ni ddylai’r arolygydd drafod ei farnau/barnau gyda’r hyfforddai neu gynrychiolwyr yr ysgol, ond canolbwyntio ar gryfderau a meysydd i’w gwella.

**Adborth ffurfiol**

Ar ddiwedd yr arolygiad, bydd y tîm yn rhoi adborth llafar i arweinwyr a rheolwyr. Dylid gwahodd cynrychiolydd o uwch reolwyr y brifysgol sy’n gyfrifol am HCA i fynychu’r cyfarfod hwn. Gallai cynrychiolydd o’r corff hyfforddi fod yn bresennol, fel y gwêl y darparwr orau. Dylai’r adborth gyfleu’r prif farnau a’r rhesymau drostynt ar gyfer y ddwy farn gryno gyffredinol ac ar gyfer y cwestiynau allweddol a’r dangosyddion ansawdd.

Mae’r cyfarfod adborth yn rhoi cyfle i arweinwyr a rheolwyr glywed y barnau a myfyrio arnynt. Dylai’r adborth ganolbwyntio ar y cryfderau a’r meysydd i’w gwella a’r ffactorau sy’n cyfrannu atynt. Dylai’r arolygydd cofnodol esbonio i’r darparwr y gellir trafod materion, cywiro materion ffeithiol ac esbonio barnau, er na ellir eu trafod. Dylai fod cysondeb bras rhwng yr arfarniadau sy’n cael eu hadrodd yn ôl a’r hyn sy’n ymddangos yn yr adroddiad ysgrifenedig oni bai bod angen newid yr arfarniadau o ganlyniad i safoni mewnol o fewn yr arolygiaeth ar ôl y rhan o’r arolygiad sy’n cael ei chynnal ar y safle.

Mae’r holl farnau yr adroddir amdanynt yn ystod arolygiad yn rhai dros dro ac yn amodol ar gael eu safoni gan PAEM. Maent yn gyfrinachol i’r darparwr HCA, hyd nes cyhoeddi’r adroddiad.

**Gweithgarwch dilynol**

Yn ystod pob arolygiad craidd, bydd y tîm arolygu yn ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar y darparwr, a bydd yn adrodd yn ôl yn glir i arweinwyr a rheolwyr yn ystod y cyfarfod adborth ffurfiol os oes angen unrhyw weithgarwch dilynol.

Mae Atodiad 6 yn amlinellu arweiniad yr arolygiaeth ar weithgarwch dilynol.

## Bodloni gofynion statudol

Caiff gwaith darparwr HCA ei lywodraethu gan ystod o ofynion statudol. Mae'r arolygiaeth yn disgwyl i ddarparwyr HCA arfarnu pa mor effeithiol y maent yn bodloni'r gofynion hyn trwy eu gweithdrefnau hunanarfarnu arferol eu hunain. Dylent nodi pa mor dda y maent yn bodloni'r gofynion hyn yn eu hadroddiad hunanarfarnu. Bydd arolygwyr yn defnyddio'r adroddiad hunanarfarnu a gwybodaeth arall i nodi unrhyw ystyriaethau sy'n ymwneud â pha mor effeithiol y mae darparwr HCA yn bodloni'r gofynion statudol. Bydd arolygwyr yn archwilio'r ystyriaethau hyn ymhellach yn ystod yr arolygiad, pan fyddant yn debygol o gael effaith sylweddol ar safonau ac ansawdd.

Caiff methu â bodloni gofynion statudol sy'n effeithio ar ansawdd a safonau ei adrodd yn y testun, a gallai arwain at farn nad yw'n uwch na digonol ar gyfer y dangosydd ansawdd perthnasol. Bydd adroddiadau arolygu HCA yn nodi cydymffurfiad â'r meini prawf a'r gofynion ar gyfer cael eu hachredu yn ddarparwyr HCA.

Ceir manylion y gofynion statudol perthnasol yn Atodiad 3.

## Ar ôl yr arolygiad

**Yr adroddiad arolygu**

Mae'r arolygydd cofnodol yn gyfrifol am lunio adroddiad arolygu terfynol sy'n glir i gynulleidfa leyg ac yn ddefnyddiol i'r darparwr HCA. Wrth ysgrifennu adroddiadau, dylai arolygwyr ystyried arweiniad ysgrifennu Estyn, sydd ar gael ar ein gwefan www.estyn.llyw.cymru.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau yn ddwyieithog lle gofynnir am hyn, yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg Estyn.

Mae strwythur yr adroddiad arolygu wedi'i seilio ar ddwy farn gryno gyffredinol, tri chwestiwn allweddol a 10 dangosydd ansawdd a bydd ar y ffurf ganlynol:

**Cyd-destun**

**Crynodeb**

- barn gyffredinol ar berfformiad cyfredol
- barn gyffredinol ar ragolygon gwella

**Argymhellion**

**Prif ganfyddiadau**

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

- safonau
- lles

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

- profiadau dysgu
- addysgu a hyfforddi
- gofal, cymorth ac arweiniad
- amgylchedd dysgu

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

- arweinyddiaeth
- gwella ansawdd
- gweithio mewn partneriaeth
- rheoli adnoddau

Atodiad 1: Adroddiad boddhad rhanddeiliaid
Atodiad 2: Y tîm arolygu

Bydd y ddwy farn gryno gyffredinol, y barnau ar y tri chwestiwn allweddol a'r deg dangosydd ansawdd wedi'u seilio ar raddfa bedwar pwynt:

Rhagorol
Da
Digonol
Anfoddhaol

Bydd yr adroddiad yn cael ei lunio o fewn graddfeydd amser statudol neu raddfeydd amser y cytunwyd arnynt ar gyfer y sector.

Bydd yr adroddiad yn nodi a oes angen unrhyw weithgarwch arolygu dilynol ar y darparwr (gweler Atodiad 6).

Bydd yr arolygiaeth yn rhoi drafft hwyr o'r adroddiad i'r darparwr HCA i helpu gwirio cywirdeb ffeithiol y cynnwys. Mae gan y darparwr HCA bum niwrnod gwaith i ystyried yr adroddiad drafft a nodi unrhyw wallau ffeithiol.

**Sicrhau ansawdd arolygiadau**

Mae'r arolygiaeth wedi ymrwymo i:

- ddewis, hyfforddi, briffio, cynorthwyo a defnyddio arolygwyr yn effeithiol, gan gynnwys arolygwyr cymheiriaid;
- hyfforddiant, briffio a chymorth effeithiol er mwyn galluogi'r enwebai i chwarae rôl weithredol;

- trafodaethau rheolaidd gyda'r darparwr yn ystod yr arolygiad;
- meini prawf a systemau cofnodi sy'n cydymffurfio â'r Fframwaith Arolygu Cyffredin a'r arweiniad;
- adolygu a dadansoddi tystiolaeth yn ofalus;
- adborth llafar diamwys ar y barnau cryno, y cwestiynau allweddol a'r dangosyddion ansawdd;
- adroddiadau sy'n gyson glir, cywir ac wedi'u cyflwyno'n dda; a
- chynnal gweithgareddau safoni a gwella ansawdd mewnol priodol, gan gynnwys monitro arolygiadau fel y bo'n briodol.

Fel rhan o'i gweithdrefnau sicrhau ansawdd, mae'r arolygiaeth yn gwahodd darparwyr i lenwi holiadur ôl-arolygiad (HOA). Bydd yr holiadur ar gael i ddarparwyr yn yr YAR. Dylai darparwyr HCA lenwi rhan gyntaf yr holiadur yn syth ar ôl yr arolygiad a'i chyflwyno i Estyn yn electronig drwy'r system YAR. Gall darparwyr HCA lenwi ail ran yr holiadur ar ôl i'r adroddiad arolygu gael ei gyhoeddi, unwaith eto drwy'r system YAR.

Dylai darparwyr HCA godi unrhyw bryderon am y modd y cafodd arolygiad ei gynnal gyda'r arolygydd cofnodol yn ystod yr arolygiad. Dylid trafod unrhyw wrthwynebiad i ganfyddiadau'r arolygiad gyda'r arolygydd cofnodol hefyd wrth iddynt godi yn ystod yr arolygiad. Yr arolygydd cofnodol fydd yn sicrhau ansawdd yr arolygiad yn gyntaf bob amser. Bydd yr arolygiaeth yn sicrhau ansawdd sampl o arolygiadau ac adroddiadau.

Mae trefniadau Estyn ar gyfer delio â chwynion wedi'u cyflwyno yn 'Gweithdrefn ar gyfer Delio â Chwynion', sydd ar gael ar wefan yr arolygiaeth, www.estyn.llyw.cymru.

## Rhan 2: Llunio barnau

Mae'r arweiniad sy'n dilyn yn dangos sut i gwblhau'r adran ar y cyd-destun, y crynodeb ac argymhellion yr adroddiad, ac mae'n amlinellu'r gofynion adrodd ar gyfer pob cwestiwn allweddol.

### Ynglŷn â'r darparwr HCA

Dylai'r adran hon o'r adroddiad gynnwys gwybodaeth gryno am y darparwr HCA. Fel arfer dylid cytuno ar gynnwys yr adran hon gyda'r darparwr HCA. Pan fydd anghytuno ynglŷn â chynnwys yr adran hon, bydd yr arolygydd cofnodol yn gwneud y penderfyniad terfynol.

Rhaid i'r adran hon gynnwys gwybodaeth gryno am:

- faint, natur a lleoliad y darparwr HCA;
- cefndir ac amgylchiadau'r hyfforddeion, gan gynnwys cefndir ieithyddol;
- unrhyw newidiadau arwyddocaol ers yr arolygiad diwethaf; ac
- unrhyw ffactorau perthnasol eraill.

### Crynodeb

Mae'r crynodeb yn cynnwys y ddwy farn gyffredinol ar berfformiad cyfredol y darparwr HCA a'i ragolygon gwella. Dylai fod esboniad byr o'r rhesymau am y barnau hyn. Rhaid i'r crynodeb fod yn gyson â'r testun yng nghorff yr adroddiad a'r adborth llafar i'r darparwr HCA.

**Barn gyffredinol ar berfformiad cyfredol y darparwr HCA**

Dylid seilio'r farn gyffredinol gyntaf ar y barnau a luniwyd ar y tri chwestiwn allweddol. Dylid rhoi'r pwys mwyaf i'r farn am Gwestiwn Allweddol 1.

Fel arfer, ni ddylai'r farn gyffredinol fod yn uwch na'r farn isaf a ddyfarnwyd i unrhyw gwestiwn allweddol. Gall y farn gyffredinol fod un lefel yn uwch na lefel isaf y farn a ddyfarnwyd i unrhyw gwestiwn allweddol, ond rhaid esbonio'r rhesymau dros yr eithriad hwn yn glir ac yn llawn yn yr adroddiad. Yn ystod y broses o safoni barnau'r arolygiad, bydd eithriadau o'r fath yn cael eu hystyried yn ofalus.

**Barn gyffredinol ar ragolygon gwella'r darparwr HCA**

Mae'r ail farn gyffredinol yn cynrychioli hyder arolygwyr yng ngallu'r darparwr HCA i ysgogi ei welliant ei hun yn y dyfodol. Fel arfer, dylai'r farn ar y rhagolygon gwella gysylltu'n agos â'r barnau cyffredinol ar gyfer y dangosyddion ansawdd ar gyfer arweinyddiaeth a/neu wella ansawdd, neu ag agweddau arwyddocaol o fewn y dangosyddion ansawdd hynny sy'n cefnogi'r farn gyffredinol.

Wrth lunio barn am y rhagolygon gwella, bydd arolygwyr yn ystyried i ba raddau y mae gan arweinwyr a rheolwyr:

- y cynhwysedd a'r gallu i wneud gwelliannau a rhoi cynlluniau ar waith;
- hanes llwyddiannus o reoli newid, mynd i'r afael ag argymhellion o'r arolygiad blaenorol a sicrhau gwelliant;

- blaenoriaethau clir a thargedau heriol ar gyfer gwella;
- cynlluniau cydlynus ac ymarferol i fodloni targedau;
- adnoddau i fodloni'r blaenoriaethau a nodwyd; a
- systemau priodol i adolygu cynnydd, nodi gwendidau a chymryd camau effeithiol i'w cywiro.

Fel arfer, dylai'r farn ar ragolygon gwella ymwneud yn agos â'r barnau cyffredinol ar y dangosyddion ansawdd ar gyfer arweinyddiaeth a/neu wella ansawdd, neu agweddau arwyddocaol o fewn y dangosyddion ansawdd hynny sy'n ategu'r farn gyffredinol.

## Disgrifiadau barn

Mae'r disgrifiadau canlynol wedi'u bwriadu i fod yn arweiniad i helpu arolygwyr i lunio barnau trwy ystyried cydbwysedd ac arwyddocâd cymharol y cryfderau a'r meysydd i'w gwella.

**Rhagorol** – Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector

**Da** – Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol

**Digonol** – Cryfderau yn gorbwyso meysydd i'w gwella

**Anfoddhaol** – Meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso cryfderau

Bydd angen i arolygwyr wirio pa un o'r disgrifiadau barn sydd fwyaf addas ar gyfer pob un o'r barnau cryno, y cwestiynau allweddol a'r dangosyddion ansawdd.

### Barnu cwestiynau allweddol a dangosyddion ansawdd

Mae cyswllt cryf rhwng deilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Os yw arweinwyr a rheolwyr yn gweithio'n effeithiol, yna dylid bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y ddarpariaeth ac yn y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni. Felly, ni fydd y farn ar gyfer Cwestiynau Allweddol 2 a 3 fel arfer ar lefel uwch na'r farn ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1, ond gall fod yn is. Pan fydd gwahaniaethau rhwng y barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1, a Chwestiynau Allweddol 2 a 3, dylid esbonio'r rhain yn nhestun yr adroddiad.

Fel arfer, dylai'r farn gyffredinol ar y cwestiwn allweddol adlewyrchu'r barnau ar gyfer y dangosyddion ansawdd yn y cwestiwn allweddol ac ni ddylai fod yn fwy nag un lefel yn uwch na'r lefel isaf a ddyfarnwyd i unrhyw ddangosydd ansawdd.

Ni ddylai'r farn ar reoli adnoddau fel dangosydd ansawdd fod yn uwch ar y raddfa na'r barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1 fel arfer, ond gall fod yn is.

## Argymhellion

Dylai'r argymhellion roi syniad clir a phenodol i'r darparwr HCA o'r meysydd i'w gwella y bydd angen iddo fynd i'r afael â nhw yn ei gynllun gweithredu. Dylai arolygwyr ysgrifennu'r argymhellion yn nhrefn eu blaenoriaeth ac, os oes angen codi safonau cyflawniad neu gyrhaeddiad, dyma fydd y brif flaenoriaeth. Dylai'r

argymhellion ddeillio o’r prif farnau a dylent ddarparu sylfaen glir ac ymarferol y gall y darparwr HCA weithredu arni. Rhaid i arolygwyr gyfeirio at unrhyw faterion arwyddocaol a nodwyd yn yr adroddiad lle nad yw arfer y darparwr HCA yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol.

## Dangosyddion ansawdd

Mae’r deg dangosydd ansawdd a ddefnyddir mewn arolygiadau Estyn wedi’u hamlinellu isod o dan y tri chwestiwn allweddol. Ar gyfer pob dangosydd ansawdd, mae ystod o agweddau. Mae arweiniad ar sut i arolygu’r dangosydd ansawdd wedi’i amlinellu o dan bob cwestiwn allweddol.

Dylai arolygwyr roi arfarniad cyffredinol o’r holl gwestiynau allweddol a dangosyddion ansawdd a rhoi sylwadau ar bob agwedd.

Mae paragraffau enghreifftiol ar gyfer barnau da ac anfoddhaol yn esbonio pob dangosydd ansawdd. Ni ddylid defnyddio’r paragraffau hyn fel rhestrau gwirio crai, ond fel cyfeiriad i gefnogi’r broses o lunio barn. Dylid eu defnyddio ar y cyd â’r disgrifiadau barn. Dylai arolygwyr bwyso a mesur y dystiolaeth a phennu barnau ar sail y rhai sy’n cyd-fynd orau â’r disgrifiadau barn.

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau?

Wrth lunio barn gyffredinol ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn, bydd arolygwyr yn rhoi’r pwys mwyaf i farnau am safonau.

**1.1 Safonau**

**1.1.1 canlyniadau a thueddiadau mewn perfformiad o’u cymharu â chyfartaleddau cenedlaethol, darparwyr tebyg a chyrhaeddiad blaenorol**
**1.1.2 safonau grwpiau o ddysgwyr**
**1.1.3 cyflawniad a chynnydd wrth ddysgu**
**1.1.4 medrau**
**1.1.5 yr iaith Gymraeg**

**Materion wrth arolygu’r dangosydd ansawdd**

Y brif ystyriaeth wrth arfarnu safonau mewn HCA yw a yw’r hyfforddeion sydd ar fin cymhwyso yn bodloni’r safonau ar gyfer Statws Athro Cymwys ac felly’n barod i ymgymryd â dyletswyddau fel athrawon newydd gymhwyso.

Dylai arolygwyr bob amser ystyried yn ofalus a yw’r farn gyffredinol yn gyson â’r data sydd ar gael. Pan na fydd gwybodaeth am ddata yn cael ei hadlewyrchu ym marnau’r arolygwyr yn y dangosydd ansawdd hwn, dylai’r adroddiad esbonio’n glir pam.

Dylai arolygwyr ystyried y dystiolaeth o arsylwadau, trafodaethau gyda hyfforddeion ac archwilio gwaith hyfforddeion yng ngoleuni’r data.

**1.1.1: canlyniadau o'u cymharu â chyfartaleddau cenedlaethol, darparwyr tebyg a chyrhaeddiad blaenorol**

Bydd y tîm arolygu yn ystyried i ba raddau y mae darparwyr HCA yn recriwtio yn unol â'r targedau a osodwyd gan CCAUC dros gyfnod, yn ogystal â data ar gyrhaeddiad cyffredinol hyfforddeion.

Bydd y tîm arolygu hefyd yn ystyried unrhyw ddata sydd ar gael gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) neu CCAUC. Bydd y tîm arolygu yn ystyried data o arolygon cyrchfan a gasglwyd gan y darparwr HCA sy'n dangos gwybodaeth am gyflogi hyfforddeion fel athrawon newydd gymhwyso.

Mae Atodiad 5 yn darparu arweiniad ar ddefnyddio data wrth arolygu darparwyr HCA.

**1.1.2: safonau grwpiau o ddysgwyr**

Dylai arolygwyr ystyried perfformiad grwpiau penodol o hyfforddeion, gan gynnwys:

- hyfforddeion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol;
- hyfforddeion ag anableddau;
- hyfforddeion gwrywaidd a benywaidd;
- hyfforddeion sy'n hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg a'r rhai sy'n hyfforddi trwy gyfrwng y Saesneg; a
- hyfforddeion sy'n dysgu Cymraeg o gartrefi'r tu allan i Gymru heb unrhyw brofiad o'r iaith Gymraeg.

I bennu a yw barnau'r darparwr HCA a barnau'r arolygiaeth yn cyd-fynd â'i gilydd, gall yr arolygiaeth enwebu grwpiau o hyfforddeion y byddant yn eu holrhain yn y rhannau o'r arolygiad yn y brifysgol ac yn yr ysgol. Pan gânt eu hysbysu'n ffurfiol am arolygiad, bydd angen i ddarparwyr HCA roi rhestrau cynhwysfawr i'r arolygiaeth o hyfforddeion a'u graddau ar gyfer aseiniadau ac, os yw'n berthnasol, profiad ysgol.

**1.1.3: cyflawniad a chynnydd mewn dysgu**

Dylai arfarniad arolygwyr o gyflawniad a chynnydd hyfforddeion gael ei seilio ar arsylwadau o'u haddysgu, craffu ar gynlluniau ysgrifenedig ac aseiniadau hyfforddeion, a thrafodaethau gyda hyfforddeion. Bydd y tîm arolygu yn ystyried i ba raddau y mae hyfforddeion yn caffael gwybodaeth a medrau newydd a sut maent yn datblygu eu dealltwriaeth a'u medrau trosglwyddadwy. Bydd y tîm arolygu hefyd yn ystyried pa mor dda y mae hyfforddeion yn datblygu medrau dysgu annibynnol da gan gynnwys medrau ymchwil, dadansoddi beirniadol a datrys problemau. Bydd arolygwyr yn cael trafodaeth gyda hyfforddeion am eu dealltwriaeth o'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud i wneud cynnydd pellach.

**1.1.4: Medrau**

Bydd arolygwyr yn ystyried tystiolaeth o safonau medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) personol hyfforddeion a sut mae'r rhain yn berthnasol yn eu gwaith cwrs a'u haddysgu. Bydd arolygwyr yn rhoi

pwyslais penodol ar fedrau llythrennedd a rhifedd hyfforddeion. Bydd arolygwyr hefyd yn ystyried pa mor dda y mae hyfforddeion yn cynorthwyo dysgu disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd, TGCh a medrau meddwl.

Bydd angen i arolygwyr roi sylw penodol i hyfforddeion sy'n cael cymorth a hyfforddeion nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

### 1.1.5: Yr iaith Gymraeg

Bydd arolygwyr yn barnu cyflawniadau hyfforddeion yn y Gymraeg yn ôl y graddau y mae hyfforddeion (cynradd ac uwchradd) yn gallu:

- defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg yn eu gwaith yn yr ysgol, er enghraifft, wrth ddefnyddio Cymraeg achlysurol ac arddangosiadau dwyieithog; ac
- addysgu'n ddwyieithog, lle bo'n briodol.

Hefyd, y graddau y mae hyfforddeion sydd wedi dewis hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu addysgu'n rhugl ac yn ystyrlon trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Safonau da**

**Perfformiad hyfforddeion wrth fodloni'r safonau ar gyfer Statws Athro Cymwys**

Mae hyfforddeion yn addysgu gwersi y mae tiwtoriaid a mentoriaid yn barnu nad ydynt fyth yn llai na digonol, ond yn aml yn dda ac o bryd i'w gilydd yn rhagorol. Gall hyfforddeion fyfyrio'n dda ac yn realistig ar eu haddysgu. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r hyn y maent yn ei wneud yn dda a'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud i wella. Maent yn bodloni'r safonau ar gyfer SAC yn gyson, yn briodol i gyfnod eu hyfforddiant. Mae hyfforddeion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r pynciau y maent yn hyfforddi i'w haddysgu, ac yn achos hyfforddeion cynradd, y Cyfnod Sylfaen a/neu gyfnod allweddol 2, fel y bo'n briodol. Mae ganddynt fedrau llythrennedd, rhifedd a TGCh personol cadarn ac maent yn cymhwyso'r medrau hyn gyda graddau uchel o gywirdeb mewn Saesneg a/neu Gymraeg yn eu gwaith eu hunain ac yn eu haddysgu. Mae hyfforddeion yn dangos dealltwriaeth o anghenion amrywiol disgyblion ac maent yn cynllunio'n dda i fodloni'r anghenion hyn trwy ddulliau addysgu amrywiol, gan gynnwys defnydd effeithiol o TGCh. Mae hyfforddeion yn cynnwys enghreifftiau o'r dimensiwn Cymreig yn eu haddysgu lle maent yn barnu ei fod yn gwella'r wers. Maent yn defnyddio ac yn hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith disgyblion yn effeithiol trwy addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, fel sy'n briodol i leoliad yr ysgol. Mae hyfforddeion yn ysgogi diddordeb disgyblion mewn dysgu yn dda trwy weithgareddau wedi'u cynllunio'n dda ac wedi'u cyflwyno'n dda sy'n herio disgyblion o bob lefel gallu yn briodol. Mae hyfforddeion yn dangos hyblygrwydd ac maent yn gweddu rhediad eu gwers i ddysgu'r disgyblion. Mae gan hyfforddeion wybodaeth gadarn am ystod o ddulliau asesu. Yn y rhan fwyaf o achosion, maent yn dewis dulliau asesu sy'n helpu disgyblion i wneud cynnydd da ac yn briodol i'r deilliannau dysgu a fwriedir. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o ddeilliannau asesu yn rheolaidd i gynllunio ar gyfer cynnydd grwpiau a disgyblion unigol.

**Deilliannau**

Mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion yn cwblhau cyrsiau HCA yn yr amser a ddyrennir ac mae'r deilliannau hyn yn cymharu'n dda â sefyllfa gyffredinol y sector a gyhoeddwyd yng ngwybodaeth ystadegol CCAUC. Mae arolygon data cyrchfannau yn dangos bod y rhan fwyaf o hyfforddeion yn dod o hyd i swydd addysgu a bod y data o arolygon penaethiaid yn dangos eu bod yn barnu bod yr hyfforddeion y maent yn eu derbyn wedi cael eu paratoi'n dda ar gyfer eu swydd gyntaf.

**Safonau anfoddhaol**

**Perfformiad hyfforddeion wrth fodloni'r safonau ar gyfer Statws Athro Cymwys**

Mae lleiafrif sylweddol, neu fwy, o hyfforddeion yn addysgu gwersi y mae tiwtoriaid a mentoriaid yn barnu o bryd i'w gilydd eu bod yn ddigonol ond yn anfoddhaol ar y cyfan. Nid yw'r hyfforddeion hyn yn gallu bodloni'r safonau ar gyfer Statws Athro Cymwys yn gydlynus ac yn gyson briodol i gyfnod eu hyfforddiant. Gallant ddangos un neu fwy o'r nodweddion canlynol yn eu haddysgu yn rheolaidd: maent yn tueddu i ganolbwyntio'n bennaf ar yr hyn y maent yn ei wneud yn dda, ond nid ydynt yn deall yn llawn yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud i wella.

Maent yn araf yn ysgogi gwelliant yn eu haddysgu. Nid oes ganddynt fedrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a chyfathrebu cadarn mewn Cymraeg a/neu Saesneg ac mae eu gwaith personol a'u gwaith yn yr ystafell ddosbarth yn cynnwys camgymeriadau niferus. Nid oes ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r pynciau y maent yn hyfforddi i'w haddysgu, ac yn achos hyfforddeion cynradd, y Cyfnod Sylfaen a/neu gyfnod allweddol 2, fel y bo'n briodol. Maent yn dangos diffyg dealltwriaeth o anghenion dysgu amrywiol y disgyblion ac nid ydynt yn cynllunio'n effeithiol i fodloni anghenion dysgu disgyblion. Maent yn defnyddio ystod gyfyng o ddulliau addysgu. Anaml y maent yn defnyddio TGCh yn effeithiol i gynorthwyo'r addysgu a'r dysgu. Anaml y maent yn defnyddio neu'n hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig neu'r iaith Gymraeg ymhlith disgyblion yn effeithiol. Ar lawer o achlysuron, maent yn methu ysgogi diddordeb y disgyblion mewn dysgu ac nid ydynt yn herio disgyblion o bob lefel gallu yn briodol. Ni all hyfforddeion addasu eu gwersi i fodloni anghenion disgyblion neu sefyllfaoedd yn eu hystafelloedd dosbarth. Nid yw rhediad eu gwers yn aml yn cyd-fynd yn dda â chynnydd y disgyblion. Nid oes gan hyfforddeion wybodaeth gadarn am ddulliau asesu. Prin yw'r defnydd a wnânt o ddeilliannau asesu, os o gwbl, i gynllunio ar gyfer cynnydd grwpiau a disgyblion unigol.

**Deilliannau**

Prin yw'r hyfforddeion sy'n cwblhau cyrsiau HCA yn yr amser a ddyrennir ac mae'r deilliannau hyn yn cymharu'n wael â'r meincnod a gyhoeddwyd yn nhablau perfformiad CCAUC. Mae arolygon data cyrchfannau yn dangos mai prin yw'r hyfforddeion sy'n dod o hyd i swydd a bod y data o arolygon penaethiaid yn dangos eu bod yn barnu bod yr hyfforddeion y maent yn eu derbyn wedi cael eu paratoi'n wael ar gyfer eu swydd gyntaf.

## 1.2 Lles

### 1.2.1 agweddau at gadw'n iach a diogel
### 1.2.2 cyfranogi mewn dysgu a'i fwynhau
### 1.2.3 ymglymiad cymunedol a gwneud penderfyniadau
### 1.2.4 medrau cymdeithasol a medrau bywyd

**Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd**

Mae'r ffocws yn y cwestiwn allweddol hwn ar ddeilliannau yn hytrach na darpariaeth. Mae'r cwestiwn allweddol hwn yn canolbwyntio ar y graddau y mae hyfforddeion:

- yn deall yr egwyddorion, ac yn defnyddio strategaethau, i sicrhau cydbwysedd iach rhwng gwaith a bywyd;
- yn deall sut i ymdrin â phlant neu bobl ifanc a all, ar adegau, fod yn bersonol heriol; ac
- yn deall gweithdrefnau amddiffyn plant fel eu bod yn gweithredu'n briodol, yn effeithiol ac yn ddiogel os yw plentyn neu berson ifanc yn rhoi gwybod am achos o gam-drin plentyn.

Bydd y cwestiynau allweddol eraill, yn enwedig Cwestiwn Allweddol 2, yn ymdrin â gwaith y darparwr HCA yn hyrwyddo lles hyfforddeion ac yn datblygu dealltwriaeth yr hyfforddeion o sut i hyrwyddo lles ymhlith eu disgyblion.

**1.2.1: agweddau at gadw'n iach a diogel**

Wrth arfarnu'r graddau y mae hyfforddeion yn deall yr egwyddorion ac yn defnyddio strategaethau i sicrhau cydbwysedd iach rhwng gwaith a bywyd, bydd arolygwyr yn ystyried a oes gan hyfforddeion ddealltwriaeth gadarn o sut gallant ddod yn iach a sut i reoli eu baich gwaith fel y gallant gyflawni eu dyletswyddau addysgu yn effeithiol, ond gan barhau i gael amser i orffwys ac ymlacio.

Wrth arfarnu'r graddau y mae hyfforddeion yn teimlo'n ddiogel mewn amgylchedd ysgol, bydd arolygwyr yn ystyried y graddau y mae hyfforddeion yn deall:

- sut mae eu hymddygiad a'u gallu i osod ffiniau yn effeithio ar y modd y mae plant a phobl ifanc yn eu gweld ac yn uniaethu â nhw; a
- sut mae cynnal gweithdrefnau'r ysgol a gweithio fel rhan o'r tîm staff yn creu amgylchedd ysgol diogel.

Wrth arfarnu'r graddau y mae hyfforddeion yn deall gweithdrefnau amddiffyn plant, bydd arolygwyr yn ystyried i ba raddau y mae hyfforddeion yn gwybod sut i weithredu'n briodol os bydd plentyn neu berson ifanc yn rhoi gwybod am achos o gam-drin plentyn.

**1.2.2: cyfranogi mewn dysgu a'i fwynhau**

Wrth arfarnu cyfranogi mewn dysgu a'i fwynhau, dylai arolygwyr ystyried presenoldeb, prydlondeb, ymddygiad ac agweddau ac i ba raddau y mae

hyfforddeion yn cael mynegi barn ynglŷn â'r hyn y maent yn ei ddysgu uwchlaw'r gofynion ar gyfer HCA a sut maent yn dysgu.

Bydd arolygwyr yn ystyried i ba raddau y mae hyfforddeion yn dangos brwdfrydedd am eu dysgu ac yn datblygu eu medrau dysgu eu hunain. Yn ychwanegol, dylai arolygwyr arfarnu gallu ac ymrwymiad hyfforddeion i ddadansoddi a myfyrio ar eu harfer eu hunain, a'i gwella trwy drafodaethau proffesiynol gyda thiwtoriaid a mentoriaid.

Bydd arolygwyr yn ystyried i ba raddau y mae hyfforddeion yn mwynhau dysgu ac yn cymryd rhan yn llawn ym mhob agwedd ar eu cwrs. Byddant yn ystyried i ba raddau y mae hyfforddeion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol sy'n cael eu cynnig gan y darparwr HCA, ac yn rhagweithiol yn cynnig eu medrau i ysgolion partneriaeth i wella'r ddarpariaeth y tu allan i'r ysgol tra byddant ar brofiad ysgol.

Wrth arfarnu presenoldeb, bydd arolygwyr yn gwirio a yw hyfforddeion yn treulio'r amser yn cael eu hyfforddi mewn ysgolion a amlinellir yng ngofyniad R2.5 o'r Rheoliadau ar gyfer Darparu Cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon (Atodiad 1 i'r Meini Prawf ar gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 2006) a'r gweithdrefnau a'r camau a gymerwyd gan y darparwr HCA lle nad yw hyfforddeion yn bodloni'r gofynion.

Ni ddylid cymryd yn ganiataol bod presenoldeb isel yn arwydd nad yw dysgwyr yn gallu cwblhau eu cwrs.

### 1.2.3: ymglymiad cymunedol a gwneud penderfyniadau

Dylai arolygwyr arfarnu i ba raddau y mae hyfforddeion yn ymgymryd â chyfrifoldebau ac yn cyfrannu at gymuned y brifysgol trwy gymryd rhan mewn undebau myfyrwyr a chyrff cynrychioliadol eraill, fel cynrychiolaeth myfyrwyr ar gyrff gwneud penderfyniadau yn y brifysgol.

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae pob un o'r hyfforddeion, gan gynnwys y rhai o grwpiau gwahanol, yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau am eu bywyd yn y brifysgol. Bydd arolygwyr hefyd yn ystyried i ba raddau y mae hyfforddeion yn ymateb i systemau'r darparwr HCA ar gyfer cynnwys hyfforddeion mewn gwella cyrsiau HCA.

Yn ystod profiadau yn yr ysgol, bydd arolygwyr hefyd yn ystyried i ba raddau y mae hyfforddeion yn datblygu dealltwriaeth o ethos yr ysgol, eu synnwyr o ddiben a sut maent yn cynrychioli eu hunain yn y gymuned ehangach.

### 1.2.4: medrau cymdeithasol a medrau bywyd

Wrth arfarnu ymddygiad ac agweddau, medrau personol, dysgu a chymdeithasol, bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae hyfforddeion yn bodloni'r safonau ar gyfer gwerthoedd ac arfer broffesiynol fel yr amlinellir yn adran S1 Safonau Statws Athro Cymwys Cymru 2009 (2009 Rhif 25) a'r gweithdrefnau a'r camau a gymerwyd gan y darparwr HCA lle nad yw hyfforddeion yn bodloni'r safonau.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae hyfforddeion yn datblygu'r medrau y bydd eu hangen arnynt i feithrin perthynas waith effeithiol gyda dysgwyr a phobl broffesiynol yn yr ysgol, ac i gyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni neu ofalwyr.

**Lefelau lles da**

Mae hyfforddeion yn gwybod ac yn deall pwysigrwydd cynnal bywyd gwaith â chydbwysedd da fel athrawon. Maent yn rheoli eu baich gwaith yn dda, yn myfyrio ar eu cynnydd yn effeithiol ac yn gwybod ble i gael cymorth arbenigol os bydd angen. Maent yn gwybod sut i ddelio â sefyllfaoedd sy'n achosi straen. Mae presenoldeb hyfforddeion yn rheolaidd ac yn brydlon yn y brifysgol ac yn ystod eu profiad ysgol. Maent wedi'u cymell yn dda, yn mwynhau dysgu ac yn gweithredu fel modelau rôl da ar gyfer dysgwyr o ran eu hymrwymiad, eu brwdfrydedd, eu parch at eraill a'u huniondeb. Maent yn dangos agweddau, gwerthoedd ac ymddygiad cadarnhaol yn eu perthynas broffesiynol, er enghraifft, mewn trafodaethau gyda thiwtoriaid, athrawon, staff cymorth a rhieni. Cânt eu gwerthfawrogi'n fawr gan bobl broffesiynol eraill am eu cyfraniadau tîm. Maent yn cymryd rhan yng nghyd-destun ehangach bywyd ysgol, er enghraifft, trwy eu hymglymiad mewn gweithgareddau allgyrsiol. Mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a'u datblygiad proffesiynol eu hunain, er enghraifft, trwy ddilyn cyrsiau ychwanegol yn ystod eu hyfforddiant neu drwy ymgymryd ag ymchwil i safon uchel. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd a ddarperir gan y darparwr HCA i gymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau, er enghraifft, yn eu rôl fel cynrychiolwyr neu yn eu hymateb i arfarniadau.

**Lefelau lles anfoddhaol**

Nid yw lleiafrif sylweddol o hyfforddeion, neu fwy, yn meddu ar wybodaeth, medrau a rhinweddau digonol i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau proffesiynol. Nid ydynt yn gallu blaenoriaethu tasgau a rheoli eu baich gwaith yn effeithiol. O ganlyniad, nid ydynt yn cyflawni gofynion partneriaeth allweddol ar gyfer profiad ysgol ac/neu maent yn methu cwrdd â therfynau amser yn eu hastudiaethau prifysgol. Maent yn aml yn cael anawsterau yn uniaethu â chydweithwyr ac, yn gyffredinol, nid ydynt yn ymateb yn briodol i gyngor da. Nid ydynt yn meithrin perthynas waith dda gyda disgyblion. Nid yw lleiafrif sylweddol o hyfforddeion yn cyfrannu at drafodaethau grŵp neu'n ymgymryd â gweithgareddau dan gyfarwyddyd. Maent yn araf yn dangos blaengaredd proffesiynol ac annibyniaeth. Anaml y maent yn cyfrannu at fywyd yr ysgol ac nid ydynt yn gweithio'n dda fel rhan o dîm. Mae eu cofnod presenoldeb yn wael ac nid eir i'r afael â threfniadau i ddal i fyny â gwaith.

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

Wrth lunio barn gyffredinol ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn, fel arfer bydd arolygwyr yn rhoi'r pwys mwyaf i'r farn ar 2.2 (addysgu) pan fo cydbwysedd rhwng y pedair barn yn y cwestiwn allweddol. Yn hyn o beth, os yw dau ddangosydd ansawdd yn dda a dau ohonynt yn ddigonol ar draws y cwestiwn allweddol, bydd y farn ar gyfer 2.2 (addysgu) fel arfer yn cael pwysoliad a fydd yn dylanwadu ar y farn gyffredinol a roddir ar gyfer y cwestiwn allweddol.

## 2.1 Profiadau dysgu

**2.1.1 bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr/y gymuned**
**2.1.2 darpariaeth ar gyfer medrau**
**2.1.3 darpariaeth Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig**
**2.1.4 addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang**

### Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd

### 2.1.1: bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr/y gymuned

Wrth arfarnu hyfforddi ac asesu hyfforddeion, bydd arolygwyr yn ystyried y cydlyniad rhwng y rhan o'r cwrs yn y brifysgol a'r profiad ysgol. Bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda y gall ysgolion partneriaeth ddarparu ystod o gyfleoedd addysgu a mentora sy'n rhoi'r cyfle gorau i'r hyfforddai fodloni'r safonau ar gyfer SAC a bodloni'r gofynion ar gyfer HCA.

Bydd arolygwyr yn barnu i ba raddau y mae profiadau dysgu wedi'u cynllunio yn ymgysylltu â hyfforddeion yn llwyddiannus, yn darparu modelau o addysgu da iawn ar eu cyfer ac yn helpu iddynt adeiladu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn systematig.

Gall arolygwyr hefyd ystyried safbwyntiau penaethiaid sydd wedi cyflogi hyfforddeion o'r darparwr HCA ynglŷn â pha mor barod yw hyfforddeion i addysgu ac ymgymryd â dyletswyddau athro sydd newydd gymhwyso (ANG).

Bydd arolygwyr yn ystyried i ba raddau y caiff hyfforddeion eu rhoi mewn ysgolion cyflenwol a chyferbyniol ac, yn benodol, a yw'r ail brofiad ysgol yn rhoi cyfleoedd i hyfforddeion adeiladu ar sylfeini eu profiad yn y lleoliad ysgol cyntaf. Bydd arolygwyr hefyd yn ystyried i ba raddau y mae gan y darparwr strategaethau ar waith sy'n galluogi'r ysgol sy'n derbyn yr hyfforddeion i adeiladu ar eu cryfderau a darparu ar gyfer eu datblygiad mewn meysydd gwannach.

Bydd arolygwyr hefyd yn ystyried unrhyw gyfleoedd cyfoethogi a ddarperir sy'n helpu hyfforddeion i ychwanegu at eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

### 2.1.2: darpariaeth ar gyfer medrau

Mae safonau da o fedrau llythrennedd, rhifedd, TGCh, medrau meddwl a medrau ehangach cyfathrebu, gweithio'n annibynnol a gweithio mewn tîm yn fedrau ategol pwysig iawn ar gyfer bod yn athrawon effeithiol. Mae gwybodaeth bynciol hefyd yn bwysig iawn os yw hyfforddeion yn mynd i allu datblygu dysgu disgyblion yn effeithiol. Bydd arolygwyr yn ystyried i ba raddau y mae'r darparwr HCA yn nodi, yn archwilio'n rheolaidd ac yn mynd i'r afael ag anghenion hyfforddeion yn y meysydd hyn.

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda y mae'r darparwr HCA:

- yn sicrhau bod hyfforddeion yn datblygu eu medrau llythrennedd, cyfathrebu a rhifedd personol a'u bod yn cael y cyfleoedd i ddefnyddio'r rhain wrth addysgu;

- yn cynllunio i ddatblygu medrau hyfforddeion trwy eu hastudiaethau ar draws y rhaglen; ac
- yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y medrau hyn yn cael ei chydlynu'n briodol fel bod cydlyniad ym mhrofiad yr hyfforddeion trwy'r cwrs.

Dylai arolygwyr archwilio sampl o gynllunio'r darparwr HCA ar gyfer hyn, gan gynnwys pa mor dda y mae staff wedi ymgorffori medrau cyfathrebu, rhifedd, meddwl a TGCh ym mhrofiad yr hyfforddeion ar draws pynciau a meysydd dysgu. Dylai arolygwyr hefyd ystyried pa mor dda y mae tiwtoriaid yn modelu'r medrau hyn yn eu sesiynau.

### 2.1.3: darpariaeth Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig

Bydd arolygwyr yn barnu i ba raddau y mae darparwyr HCA yn bodloni anghenion cenedlaethol ac anghenion hyfforddeion yn yr iaith Gymraeg yn ôl y graddau y gall hyfforddeion wneud defnydd o'r ddarpariaeth i wella eu medrau ieithyddol er mwyn iddynt allu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn yr ystafell ddosbarth. Bydd arolygwyr hefyd yn ystyried argaeledd ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer hyfforddeion sy'n dymuno hyfforddi ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth arfarnu'r ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer hyfforddeion, bydd arolygwyr hefyd yn ystyried sut mae darparwyr HCA yn datblygu galluoedd hyfforddeion cynradd ac uwchradd fel ei gilydd i weithio'n ddwyieithog gyda disgyblion.

Er mwyn galluogi disgyblion yng Nghymru i ddatblygu gwerthfawrogiad gwell o Gymru a'i lle yn y byd, mae angen i hyfforddeion ddatblygu dealltwriaeth dda o agweddau diwylliannol, ieithyddol, hanesyddol, economaidd ac amgylcheddol ar fywyd Cymru. Bydd arolygwyr yn barnu i ba raddau y mae darparwyr HCA yn datblygu gwybodaeth hyfforddeion am y dimensiwn Cymreig a dealltwriaeth hyfforddeion o sut i gynnwys y dimensiwn Cymreig yn briodol yn eu gwersi.

### 2.1.4: addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang

Bydd arolygwyr yn ystyried i ba raddau y mae tiwtoriaid a mentoriaid yn helpu hyfforddeion i ddatblygu dealltwriaeth o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang a'r graddau y gall hyfforddeion ddefnyddio'r cysyniadau hyn yn eu haddysgu i gynorthwyo dysgu a datblygiad disgyblion yn y meysydd hyn.

### Profiadau dysgu da

Mae'r darparwr HCA yn cynnig ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a chyfleoedd addysgol gan gynnwys gweithgareddau cyfoethogi'r cwricwlwm. Mae'n gwahodd ac yn ymateb yn dda i safbwyntiau cyflogwyr a hyfforddeion. Mae rhaglenni wedi'u strwythuro'n glir ac yn adeiladu ar anghenion personol a phroffesiynol hyfforddeion, er enghraifft, eu gallu i ddefnyddio medrau llythrennedd, rhifedd, meddwl, TGCh a medrau eraill. Mae cysondeb a chydlyniad da rhwng darpariaeth yn y brifysgol a darpariaeth yn yr ysgol. Ymdrinnir â phynciau/meysydd dysgu yn ddigon manwl ac eang fel bod hyfforddeion yn wybodus ac yn ddigon hyderus i addysgu yn unol â'r gofynion ar gyfer Statws Athro Cymwys. Mae'r gweithgareddau dysgu yn amrywiol ac yn ennyn diddordeb ac yn cysylltu'n uniongyrchol â nodau a deilliannau'r

sesiynau. Caiff hyfforddeion gyfleoedd i arsylwi addysgu o ansawdd uchel. Mae pob un o'r hyfforddeion yn elwa ar gyfleoedd wedi'u llunio'n dda i ddatblygu eu medrau Cymraeg, eu hymwybyddiaeth o ddiwylliant Cymru a'u medrau addysgu cyfrwng Cymraeg, fel y bo'n briodol. Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn nodwedd gref o'r cwrs. Mae'r darparwr HCA yn adolygu ei raglenni yn rheolaidd, i hysbysu hyfforddeion yn dda am y mentrau addysgol diweddaraf. Caiff lleoliadau ysgol eu gweddu'n dda i anghenion hyfforddi'r hyfforddeion.

**Profiadau dysgu anfoddhaol**

Nid yw'r darparwr HCA yn olrhain anghenion hyfforddeion a chyflogwyr yn ddigon agos i sicrhau bod cyfatebiaeth briodol rhwng y rhain a chynnwys y cwrs. Nid yw strwythur y rhaglenni'n glir, ac mewn rhai agweddau pwysig, nid yw'n paratoi hyfforddeion i fodloni gofynion bywyd ysgol. Gall fod un neu fwy o'r enghreifftiau hyn o annigonolrwydd mewn rhaglenni: sylw annigonol i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth hyfforddeion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang; cyfleoedd cyfyngedig i hyfforddeion ddatblygu eu hymwybyddiaeth o Gymru a'u gallu o ran y Gymraeg; medrau TGCh neu fedrau allweddol eraill heb eu datblygu digon. Prin yw'r gweithgareddau cyfoethogi y mae'r darparwr HCA yn eu cynnig ac mae'r nifer sy'n manteisio ar y rhain yn wael.

## 2.2 Addysgu

### 2.2.1 ystod ac ansawdd y dulliau addysgu/hyfforddi
### 2.2.2 asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu

**Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd**

Dylai'r ffocws fod ar effaith addysgu a hyfforddi ar ddysgu ac nid ar ddefnyddio proses benodol ar wahân i'w heffaith.

**2.2.1: ystod ac ansawdd y dulliau addysgu/hyfforddi**

Wrth arfarnu ansawdd yr addysgu a'r hyfforddi, bydd arolygwyr yn arsylwi sampl o sesiynau wedi'u harwain gan y tiwtor. Bydd arolygwyr hefyd yn ystyried barn yr hyfforddeion, fel y caiff ei mynegi mewn holiaduron a thrafodaethau gydag arolygwyr.

I arfarnu ansawdd yr hyfforddiant a ddarperir gan ysgolion partneriaeth, bydd yr arolygydd cofnodol yn enwebu grŵp o hyfforddeion y bydd arolygwyr yn ymweld â nhw. Fel arfer, bydd yr arolygydd cofnodol yn neilltuo hanner diwrnod i ymweld â phob hyfforddai. Fel rhan o'r ymweliad, bydd arolygwyr:

- yn cyfarfod â'r pennaeth i drafod rôl yr ysgol yn y bartneriaeth;
- yn arsylwi'r hyfforddai yn addysgu;
- yn arsylwi adborth y mentor i'r hyfforddai;
- yn cyfarfod â'r mentor a'r unigolyn sy'n gyfrifol am y rhaglen hyfforddi gyffredinol yn yr ysgol i drafod y bartneriaeth, eu rolau a'u dealltwriaeth o feini prawf ar gyfer asesu a threfniadau asesu;

- yn cyfarfod â'r hyfforddai i drafod eu profiad ar y cwrs a'u dealltwriaeth o'u cynnydd hyd yn hyn; ac
- yn adolygu ffeiliau profiad ysgol yr hyfforddai a'r mentor.

Bydd disgwyl i hyfforddeion ddod â'r holl ddogfennaeth berthnasol i'r ysgol ar ddiwrnod yr ymweliad.

Ni fydd arolygwyr fel arfer yn ymweld â hyfforddeion y mae darparwyr HCA yn barnu ar adeg yr arolygiad, eu bod mewn perygl o fethu'r cwrs. Dylai niferoedd yr hyfforddeion yn y categori hwn fod yn fach iawn. Bydd angen i ddarparwyr HCA roi hanesion achos i arolygwyr ar gyfer pob hyfforddai a enwir yn y categori hwn. Bydd arolygwyr yn adolygu'r ffeiliau a byddant yn trafod cynnydd yr hyfforddai gydag arweinydd y rhaglen/cwrs. Gallant gyfweld â'r mentor a'r hyfforddai, a/neu arsylwi'r hyfforddai yn addysgu, os nad ydynt yn gwbl fodlon â'r dystiolaeth a gyflwynwyd.

**2.2.2: asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu**

Wrth farnu effeithiolrwydd trefniadau'r darparwr HCA ar gyfer asesu cyflawniadau a chynnydd hyfforddeion, bydd arolygwyr yn edrych ar ystod o dystiolaeth o'r ffynonellau a roddir yn Atodiad 2. Bydd arolygwyr yn adolygu sampl o waith wedi'i farcio a gwaith wedi'i asesu i farnu ansawdd yr adborth y mae tiwtoriaid yn ei roi i hyfforddeion. Byddant yn rhoi sylw penodol i'r math o adborth a roddir i hyfforddeion a'i ansawdd, ac a yw targedau sy'n deillio o'r adborth yn cael eu gosod. Byddant hefyd yn barnu i ba raddau y mae gan diwtoriaid a mentoriaid ddealltwriaeth ar y cyd o'r meini prawf asesu a'u bod yn gallu defnyddio'r meini prawf yn deg ac yn gyson, yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer sicrhau barn wedi'i safoni am gyflawniadau a chynnydd hyfforddeion.

O dan safon S1.7 Safonau Statws Athro Cymwys Cymru 2009 (2009 Rhif 25), mae'n ofynnol i hyfforddeion fod yn ymwybodol o bwysigrwydd cynnal gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau proffesiynol cyfoes, i allu myfyrio ar eu harfer eu hunain, cydnabod eu hanghenion eu hunain a chymryd cyfrifoldeb am eu datblygiad proffesiynol parhaus. Bydd arolygwyr yn ystyried i ba raddau y caiff rhaglenni a chyrsiau eu llunio i roi cyfleoedd da i hyfforddeion ddatblygu'r medrau o fyfyrio ar arfer, i ddatblygu amcanion tymor byr, canolig a hwy a'r defnydd a wna hyfforddeion o'r rhain.

**Addysgu/hyfforddi da**

Mae tiwtoriaid a mentoriaid yn cynllunio sesiynau yn dda ac yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu effeithiol a dychmygus. Maent yn dangos gwybodaeth bynciol gadarn a chyfoes. Caiff hyfforddiant ei lywio'n dda gan ymchwil. Defnyddir adnoddau dysgu yn effeithiol i wella gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth hyfforddeion.

Mae'r marcio yn gyson, yn gryno ac yn deg. Mae'r amcanion dysgu a'r meini prawf asesu yn eglur ac mae hyfforddeion yn gwybod sut i wella eu dysgu ac yn bodloni'r safonau ar gyfer SAC yn llwyddiannus. Mae tiwtoriaid a mentoriaid yn rhannu dealltwriaeth ar y cyd o'r meini prawf wrth asesu cynnydd a chyflawniadau

hyfforddeion. Rhoddir adborth prydlon, manwl a chefnogol i hyfforddeion ac fe gaiff hyfforddeion gyfleoedd da i adeiladu ar adborth a dangos cynnydd. Caiff hyfforddeion eu cynnwys yn llawn yn y broses asesu ac maent yn ymateb yn dda i gyfleoedd i osod targedau, archwilio ac adolygu eu cynnydd. Maent yn myfyrio ar eu cryfderau a'r meysydd i'w datblygu ac yn gwybod sut mae'r rhain yn cysylltu â'r safonau ar gyfer SAC.

**Addysgu/hyfforddi anfoddhaol**

Nid yw'r dulliau addysgu a hyfforddi a ddefnyddir gan y darparwr HCA yn ennyn diddordeb lleiafrif sylweddol o hyfforddeion. Ar y cyfan, mae diffyg manylder digonol yn y cynllunio ac nid yw sesiynau'n cael eu paratoi'n dda. Nid oes gan leiafrif sylweddol o diwtoriaid a/neu hyfforddeion yr arbenigedd i arwain a mentora hyfforddeion. Mae adnoddau dysgu yn annigonol ar y cyfan i gefnogi anghenion hyfforddeion. Nid yw'r marcio a'r adborth yn ddigon treiddgar i alluogi hyfforddeion i symud ymlaen yn eu haddysg a'u hyfforddiant. Er enghraifft, mae'r targedau a osodir ar gyfer gwella addysgu hyfforddeion yn ystod y profiad ysgol yn rhy annelwig. Ni chaiff hyfforddeion ddigon o gyfleoedd i fyfyrio ar eu harfer eu hunain a monitro eu cynnydd eu hunain tuag at gyflawni safonau ar gyfer SAC.

## 2.3 Gofal, cymorth ac arweiniad

**2.3.1 darpariaeth ar gyfer iechyd a lles, gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol**
**2.3.2 gwasanaethau, gwybodaeth ac arweiniad arbenigol**
**2.3.3 trefniadau diogelu**
**2.3.4 anghenion dysgu ychwanegol**

**Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd**

Dylai'r prif ffocws yn y dangosydd ansawdd hwn fod ar effaith gofal, cymorth ac arweiniad ar safonau a lles hyfforddeion yn hytrach nag ar y gweithdrefnau a'r trefniadau. Mae cysylltiadau clir rhwng effeithiolrwydd y cymorth a'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr. Pan fyddant yn arfarnu gofal, cymorth ac arweiniad, dylai arolygwyr ystyried barnau'r tîm ar safonau a lles.

**2.3.1: darpariaeth ar gyfer iechyd a lles, gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol**

Mae addysgu yn broffesiwn sy'n gofyn am lawer o stamina corfforol a meddyliol. Wrth arfarnu pa mor dda y mae darparwyr HCA yn hyrwyddo iechyd a lles hyfforddeion, bydd arolygwyr yn edrych i weld pa mor dda y mae tiwtoriaid a mentoriaid yn integreiddio cyngor am iechyd a lles yn gyson yn y cwrs hyfforddi. Bydd arolygwyr hefyd yn edrych ar y strategaethau a awgrymir i gadw cydbwysedd da rhwng gwaith a bywyd ac iechyd corfforol ac iechyd meddwl, ac yn eu trafod gyda hyfforddeion, a pha wasanaethau sydd ar gael i hyfforddeion pe byddai angen cymorth o unrhyw fath arnynt yn ystod eu hyfforddiant, ac effeithiolrwydd y cymorth hwn.

Bydd arolygwyr yn ystyried:

- gallu'r darparwr HCA i fonitro a nodi'n gynnar yr hyfforddeion sy'n cael trafferth â'r cwrs;
- gallu'r darparwr HCA i roi cymorth wedi'i dargedu; a
- lle nad yw hyfforddeion yn gwella o ganlyniad i'r cymorth, gallu'r darparwr HCA i gwnsela hyfforddeion i adael addysgu.

Hefyd, dylai arolygwyr ystyried y cymorth i hyfforddeion yn yr ysgolion partneriaeth, lle gall disgyblion fod yn fwy heriol na'r arfer.

Gall hyfforddeion a disgyblion hŷn fod yn agos o ran eu hoedran, ac mewn ychydig iawn o achosion, gall hyfforddeion gael eu temtio i ddechrau perthynas gyda disgyblion. Bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae'r darparwr yn helpu hyfforddeion i ddeall y gyfraith Troseddau Rhyw (Deddf Ddiwygio 2003) sy'n ymwneud â pherthynas athro/disgybl a dealltwriaeth gyffredinol hyfforddeion o'u rôl a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â disgyblion.

**2.3.2: gwasanaethau, gwybodaeth ac arweiniad arbenigol**

Bydd arolygwyr yn barnu i ba raddau y mae gan y darparwr HCA bolisïau a gweithdrefnau clir ar waith i ddarparu arweiniad gwrthrychol a chlir ar gyfer y rhai sy'n ystyried mynd i addysgu. Byddant yn asesu a yw'r trefniadau cymorth ar gyfer hyfforddeion yn gydlynus ac yn galluogi hyfforddeion i symud ymlaen trwy eu cyrsiau. Bydd arolygwyr yn defnyddio tystiolaeth am effeithiolrwydd y gwasanaethau cymorth o'r arolygiad o sampl o feysydd pwnc a thrafodaethau gyda hyfforddeion am effeithiolrwydd yr arweiniad a'r sefydlu cychwynnol, er enghraifft.

Bydd arolygwyr hefyd yn ystyried effeithiolrwydd y systemau i nodi hyfforddeion nad ydynt yn gwneud cynnydd digon da yn eu hyfforddiant, effeithiolrwydd y gweithdrefnau cwnsela i gynorthwyo, neu lle bo'n briodol, i alluogi hyfforddeion i adael y cwrs.

**2.3.3: trefniadau diogelu**

Mae diogelu plant a phobl ifanc o'r pwys mwyaf. Bydd angen i arolygwyr ganfod a oes gan y bartneriaeth bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith o ran diogelu ac a yw'r bartneriaeth gyfan yn hyrwyddo arfer diogelu da.

Dylai polisi amlinellu'r canlynol:

- cyfrifoldebau'r uwch aelod o staff a enwir ar gyfer delio â materion yn ymwneud ag amddiffyn a diogelu plant a rhoi cyngor/cymorth i staff eraill;
- gweithdrefnau clir sy'n adlewyrchu arweiniad a rheoliadau statudol presennol (gweler Atodiad 3); a
- threfniadau ar gyfer hyfforddiant sy'n briodol i staff sy'n cymryd rhan mewn HCA.

Bydd arolygwyr yn ystyried trefniadau'r darparwr HCA er mwyn sicrhau:

- bod gan hyfforddeion gefndir addas i weithio gyda phlant a phobl ifanc;

- bod gan hyfforddeion ddealltwriaeth dda o ddiogelu a'u bod yn bodloni gofyniad R2.7 o'r Gofynion ar gyfer Darparu Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon yn Atodiad A i'r Meini Prawf ar gyfer Achrediad Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru; a
- bod ysgolion yn darparu hyfforddiant am eu polisi amddiffyn plant fel rhan o'r cyfnod sefydlu yn y profiad ysgol.

Dylai trefniadau diogelu'r darparwr sicrhau bod recriwtio diogel a bod yr holl ddysgwyr yn cael eu hamddiffyn. Mae'r arolygiaeth yn disgwyl i bob darparwr gydymffurfio â gofynion fel y cânt eu hamlinellu yn y ddeddfwriaeth sy'n ymdrin â'r maes hwn (gweler Atodiad 3). Bydd angen i arolygwyr ganfod a yw trefniadau'r darparwr yn bodloni gofynion ac nad ydynt yn destun pryder.

Bydd angen i arolygwyr ganfod p'un a oes gan y darparwr drefniadau recriwtio, disgyblu ac adrodd effeithiol ar waith i sicrhau addasrwydd staff a gwirfoddolwyr. Nid oes gofyniad i staff a benodwyd cyn 2002 gael gwiriad cyfredol yr SCT nac i ddarparwyr gynnal gwiriadau bob tair blynedd ar staff. Hefyd, nid oes gofyniad cyfreithiol i ddarparwyr wirio tiwtoriaid dysgu oedolion oni bai bod eu gweithgareddau'n dod o fewn categori sy'n mynnu gwiriad yn gyfreithiol. Fodd bynnag, dylai arolygwyr wirio bod darparwyr wedi cynnal gwiriadau cyn cyflogi ar yr holl staff.

Ni fydd barn nad oes gan ddarparwr drefniadau priodol ar waith ar gyfer diogelu yn golygu mwyach bod y farn gyffredinol ar gyfer y bartneriaeth ym maes gofal, cymorth ac arweiniad (2.3 yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin) yn farn anfoddhaol.

**2.3.4: anghenion dysgu ychwanegol**

Wrth arfarnu cymorth y darparwr HCA ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, bydd arolygwyr yn ystyried y prosesau recriwtio ac archwilio dilynol, yn ogystal â'r systemau sydd ar waith yn y bartneriaeth i sicrhau cymorth cydlynus ar gyfer unrhyw hyfforddai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad da**

Mae systemau o ansawdd uchel ar gyfer gofal a lles hyfforddeion, y gall hyfforddeion wneud defnydd ohonynt yn hawdd. Mae'r darparwr HCA yn ymateb yn gyflym i bryderon ac anawsterau sy'n cael eu codi gan hyfforddeion ac ysgolion partneriaeth. Mae ganddo bolisïau a gweithdrefnau clir ar waith i sicrhau bod ymgeiswyr ar gyfer y cwrs a'r hyfforddeion eu hunain yn cael arweiniad a gwybodaeth ddiduedd am y proffesiwn addysgu. Mae rhaglenni yn ymdrin â strategaethau ar gyfer hyrwyddo iechyd a lles personol hyfforddeion. Mae gweithdrefnau trylwyr ar gyfer nodi ac asesu hyfforddeion sydd angen cymorth dysgu. Mae arweiniad am faterion personol, lles ac ariannol wedi'i deilwra'n dda i anghenion unigol. Mae systemau cadarn ar waith i fonitro presenoldeb hyfforddeion yn y brifysgol a'r ysgol. Mae gan hyfforddeion ddealltwriaeth drylwyr o ddiogelu plant a phobl ifanc. Mae pob ysgol bartneriaeth yn rhoi cyfarwyddyd clir i hyfforddeion ar eu polisïau a'u gweithdrefnau amddiffyn plant ar ddechrau eu profiadau lleoliad. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Gofal, cymorth ac arweiniad anfoddhaol**

Yn gyffredinol, nid yw'r darparwr HCA yn gweithredu'n ddigon cyflym i gefnogi anghenion hyfforddeion, er enghraifft, mewn materion bugeiliol neu ddatblygu eu cymhwysedd ieithyddol. Nid yw trefniadau derbyn a sefydlu yn ennyn hyder ymhlith llawer o ymgeiswyr a hyfforddeion. Mae arweiniad y rhaglen yn aml yn anghyson ac yn aneglur sy'n arwain at lefelau uchel o anfodlonrwydd ymhlith hyfforddeion. Nid yw'r darparwr HCA yn olrhain ac yn ymateb yn briodol i'r lleiafrif sylweddol o hyfforddeion sy'n colli darlithoedd a sesiynau eraill. Mae'r trefniadau ar gyfer cynorthwyo hyfforddeion ag anghenion dysgu ychwanegol yn annigonol, sy'n golygu eu bod dan anfantais wrth weithio tuag at gyflawni safonau ar gyfer SAC. Nid oes gan y darparwr HCA bolisïau a gweithdrefnau diogelu priodol ar waith. Mae anghysondeb ymhlith ysgolion partneriaeth o ran rhoi arweiniad clir i hyfforddeion ar faterion amddiffyn plant. Nid yw trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac maent yn destun pryder difrifol.

## 2.4 Yr amgylchedd dysgu

### 2.4.1 ethos, cydraddoldeb ac amrywiaeth
### 2.4.2 amgylchedd ffisegol

**Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd**

**2.4.1: ethos, cydraddoldeb ac amrywiaeth**

Wrth arolygu ethos y darparwr HCA, bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae'r darparwr HCA yn annog ac yn modelu agweddau proffesiynol sy'n briodol i addysgu. Wrth arfarnu cydraddoldeb ac amrywiaeth, bydd arolygwyr hefyd yn ystyried i ba raddau y mae rhaglenni'r darparwr HCA wedi'u hanelu at ehangu cyfranogiad yn y llu addysgu. Bydd arolygwyr yn ystyried polisïau ac arferion y darparwr HCA mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys mewn perthynas â'r amgylchedd dysgu wrth alluogi pob un o'r hyfforddeion i gael hawl deg i'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i allu dangos y safonau SAC yn llwyddiannus a chwblhau eu cyrsiau. Bydd arolygwyr yn ystyried i ba raddau y caiff hyfforddeion eu hamddiffyn rhag aflonyddwch a gwahaniaethu. Bydd arolygwyr hefyd yn ystyried y camau y mae darparwyr HCA yn eu cymryd i gael gwared ar bob math o ymddygiad gormesol ac aflonyddwch.

**2.4.2: amgylchedd ffisegol**

Wrth arfarnu gallu hyfforddeion i gael at adnoddau dysgu priodol, gan gynnwys TGCh, bydd arolygwyr yn ystyried effeithiolrwydd y bartneriaeth wrth fodloni anghenion dysgu hyfforddeion. Wrth arfarnu cyflwr ac addasrwydd yr adeiladau ar gyfer rhoi hyfforddiant, dysgu a chymorth da i hyfforddeion, ar wahân i'r amgylchoedd ffisegol, offer a mynediad ar gyfer hyfforddeion anabl, bydd arolygwyr yn rhoi ystyriaeth i raddau'r gyfatebiaeth rhwng anghenion dysgu hyfforddeion a'r lleoliad mewn ysgolion partneriaeth, o ystyried paramedrau penodol a all fodoli.

Wrth arfarnu i ba raddau y mae'r amgylchedd y mae hyfforddeion yn dysgu ynddo yn ddiogel, bydd arolygwyr hefyd yn asesu gweithdrefnau asesu risg y darparwr HCA a'i bartneriaethau o ran HCA.

**Amgylchedd dysgu da**

Mae'r darparwr HCA yn rhagweithiol wrth hyrwyddo cyfle cyfartal ymhlith hyfforddeion ac i gael gwared â phob math o aflonyddwch a gwahaniaethu. Mae hyfforddeion yn elwa ar ddefnyddio ystod eang o adnoddau dysgu addas, hyfforddiant o ansawdd uchel ac amgylchedd gweithio diogel. Mae ymrwymiad cryf i ehangu mynediad i'r proffesiwn addysgu o blith grwpiau nad oes digon o gynrychiolaeth ohonynt. Mae trefniadau ar gyfer lleoli hyfforddeion ar brofiad ysgol yn ystyried anghenion hyfforddeion yn ogystal ag ysgolion. Caiff adnoddau dysgu ac adeiladau yn y darparwr hyfforddiant a'r ysgolion partneriaeth eu cynnal yn dda ac maent yn addas at eu diben.

**Amgylchedd dysgu anfoddhaol**

Mae diffyg systemau a gweithdrefnau digonol yn y darparwr HCA ar gyfer monitro gwahaniaethu ac aflonyddwch. Caiff achosion o ymddygiad gwahaniaethol eu hanwybyddu weithiau. Mae lleiafrif sylweddol o hyfforddeion yn teimlo nad yw'r darparwr HCA yn cymryd eu pryderon o ddifrif. Mae lleiafrif sylweddol o hyfforddeion yn anghyfarwydd â sut i fynd i'r afael â mathau o wahaniaethu yn rhinwedd eu swydd fel athrawon. Maent yn ansicr ynglŷn â gweithdrefnau ac nid ydynt yn ymwybodol o'r gweithdrefnau y tu ôl i ddeddfwriaeth ac arweiniad perthnasol. Mae diffyg adnoddau digonol, fel cyfrifiaduron, mewn lleiafrif sylweddol o ystafelloedd addysgu, i ennyn diddordeb hyfforddeion. Mae llawer o hyfforddeion yn cwyno ynglŷn ag ansawdd cyffredinol yr adeiladau. Nid yw adnoddau dysgu o ansawdd uchel ar gael yn ddigonol iddynt, ac mae hyn yn rhwystro eu paratoi a'u cynllunio.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Wrth lunio barn gyffredinol ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn, bydd arolygwyr yn rhoi pwys cyfartal i bob dangosydd ansawdd.

## 3.1 Arweinyddiaeth

**3.1.1 cyfeiriad strategol ac effaith yr arweinyddiaeth**
**3.1.2 llywodraethwyr neu fyrddau goruchwylio eraill**

**Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd**

**3.1.1: cyfeiriad strategol ac effaith yr arweinyddiaeth**

Mae gan bawb sy'n ymwneud â HCA yng Nghymru rôl hanfodol mewn helpu sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghymru yn derbyn addysg o ansawdd uchel sy'n eu paratoi â'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r medrau angenrheidiol i fyw bywydau llwyddiannus a boddhaus.

Prif gyfrifoldeb arweinwyr sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol am HCA yw sicrhau bod hyfforddeion yn derbyn yr hyfforddiant a'r cyfleoedd gorau posibl i ddangos a chyflawni'r safonau ar gyfer Statws Athro Cymwys yn llwyddiannus, yn hyderus ac yn gyson. Dylai gweledigaeth a gwerthoedd y sefydliad adlewyrchu ymrwymiad i ddarparu hyfforddiant o ansawdd uchel.

Bydd arolygwyr yn gwahaniaethu rhwng arweinyddiaeth a rheolaeth. Byddant yn llunio barnau am effeithiolrwydd uwch arweinwyr sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol am HCA wrth osod y cyfeiriad strategol.

Wrth arfarnu cyfeiriad strategol yr arweinyddiaeth, bydd arolygwyr yn barnu:

- i ba raddau y mae uwch arweinwyr mewn HCA yn ystyried blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yng Nghymru;
- pa mor dda y mae rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio ac a yw rolau a chyfrifoldebau mewn timau uwch reolwyr a rheolwyr canol mewn HCA yn hyfyw a chytbwys;
- i ba raddau y mae pob un o'r staff sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau HCA, gan gynnwys penaethiaid a mentoriaid mewn ysgolion partneriaeth, yn deall ac yn cyflawni eu rolau mewn perthynas uniongyrchol â nodau, cynlluniau a chyfrifoldebau strategol penodol;
- pa mor effeithiol y mae uwch reolwyr a rheolwyr mewn HCA yn rheoli eu hamser eu hunain ac yn blaenoriaethu gweithgareddau yn ymatebol;
- a yw dulliau rheoli prosiect yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gyflawni busnes HCA;
- pa mor effeithiol y mae uwch arweinwyr mewn HCA yn defnyddio ac yn monitro cyllid ac adnoddau i gyflawni nodau'r cyrsiau HCA;
- pa mor effeithiol y caiff cyfarfodydd eu cynnal i ganolbwyntio ar faterion perfformiad pwysig a busnes craidd ac yn llunio pwyntiau gweithredu clir sy'n cael eu cyflawni'n effeithlon ac yn effeithiol o ganlyniad;
- a yw strwythurau rheoli a phwyllgor yn cydlynu â'r cyfeiriad strategol ac yn mynd i'r afael â materion craidd mewn HCA;
- pa mor dda y mae uwch arweinwyr mewn HCA yn defnyddio data i fonitro perfformiad hyfforddeion, tiwtoriaid a'r bartneriaeth ac effaith systemau i wella darpariaeth;
- a yw uwch arweinwyr mewn HCA yn cyfleu disgwyliadau uchel i'r rhai y maent yn eu rheoli;
- a yw uwch arweinwyr a rheolwyr mewn HCA yn cytuno ar, ac yn cyflawni targedau heriol a realistig ar eu cyfer eu hunain, tiwtoriaid, y bartneriaeth a'r hyfforddeion; ac
- a yw arweinwyr yn trafod ac yn cydweithredu'n dda â staff mewnol ac asiantaethau allanol.

Dylai arolygwyr hefyd arfarnu effaith arweinwyr yn y ffordd y maent yn rheoli perfformiad staff er mwyn helpu staff i wella eu harfer. Dylent farnu a yw arweinwyr a rheolwyr yn mynd i'r afael â materion tanberfformio yn drylwyr ac yn uniongyrchol, lle bydd angen. Dylai arolygwyr arfarnu a yw rheoli perfformiad yn nodi anghenion hyfforddi a datblygu unigolion a'r darparwr cyfan yn glir ac a yw'r rhain yn cael eu blaenoriaethu'n briodol ac yr eir i'r afael â nhw yn llawn. Dylent nodi a yw targedau priodol ar gyfer gwella yn cael eu gosod ar gyfer staff, sy'n cefnogi'r nodau strategol mewn cynlluniau datblygu a chynlluniau gweithredu eraill.

Bydd arolygwyr yn ystyried gallu'r darparwr HCA i ymateb yn effeithiol ac yn effeithlon i newidiadau i fentrau lleol a chenedlaethol mewn HCA, addysg athrawon a

hyfforddi'r gweithlu yn gyffredinol. Byddant yn ystyried gallu'r darparwr HCA i fod ar y blaen mewn HCA drwy 'sganio'r gorwel', mentrau cydweithredol ac ymchwil addysgol.

### 3.1.2: llywodraethwyr neu gyrff goruchwylio eraill

Bydd arolygwyr yn arfarnu'r modd y mae uwch arweinwyr yn y darparwr HCA a/neu lywodraethwyr a/neu gyrff goruchwylio:

- yn deall eu rolau mewn perthynas â hyfforddiant cychwynnol i athrawon;
- yn ystyried blaenoriaethau lleol a chenedlaethol wrth ddiffinio'r ddarpariaeth HCA;
- yn cael eu hysbysu am berfformiad y darparwr HCA a'r materion sy'n effeithio arno;
- yn cynorthwyo uwch arweinwyr mewn HCA fel ffrind beirniadol; ac
- yn dwyn uwch reolwyr sydd â chyfrifoldeb am HCA i gyfrif am y safonau a'r ansawdd a gyflawnir gan y darparwr.

Bydd arolygwyr yn rhoi ystyriaeth briodol i'r barnau ar safonau wrth lunio eu barn ar arweinyddiaeth a rheolaeth.

**Arweinyddiaeth dda**

Mae arweinwyr yn darparu synnwyr clir iawn o gyfeiriad sydd wedi'i gysylltu'n dda â chenhadaeth gyffredinol y darparwr HCA a blaenoriaethau cenedlaethol mewn HCA. Caiff newid ei reoli'n dda i sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal. Mae ymrwymiad cryf ar bob lefel o'r staff i ddarparu hyfforddiant o ansawdd uchel. Mae sianelau cyfathrebu yn glir ac yn gynhwysol er mwyn ymgynghori'n llawn â staff, llywodraethwyr, cynrychiolwyr ysgol a hyfforddeion ynglŷn â chyfeiriad y darparwr HCA. Mae gwybodaeth yn llifo'n dda rhwng y darparwr HCA a'i ysgolion partneriaeth. Mae uwch reolwyr yn fedrus wrth herio a chefnogi arweinwyr rhaglen i ysgogi gwelliannau mewn darpariaeth a safonau. Mae llinellau atebolrwydd yn glir ac fe gaiff cyfrifoldebau rheoli eu dirprwyo'n briodol.

**Arweinyddiaeth anfoddhaol**

Mae llinellau cyfathrebu rhwng arweinwyr, rheolwyr, staff ac ysgolion partneriaeth yn aml yn aneglur ac mae hyn yn niweidiol i ddysgu a lles hyfforddeion. Ni chaiff polisïau a gweithdrefnau eu dilyn na'u monitro'n gyson, ac mae hyn yn drysu lleiafrif sylweddol o hyfforddeion. Mae morâl ymhlith y staff yn isel ar y cyfan. Nid oes gan arweinwyr systemau atebolrwydd effeithiol ar waith i sefydlu blaenoriaethau strategol a mynd i'r afael â gwendidau mewn rheoli. Mae llywodraethwyr a/neu fyrddau goruchwylio yn chwarae rôl symbolaidd mewn herio'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan y darparwr HCA. Nid yw uwch dîm rheoli'r brifysgol yn dangos digon o ddiddordeb yn y safonau addysgol a gyflawnir gan hyfforddeion a sut gellir cryfhau'r rhain.

## 3.2 Gwella ansawdd

### 3.2.1 hunanarfarnu, gan gynnwys gwrando ar ddysgwyr ac eraill
### 3.2.2 cynllunio a sicrhau gwelliant

**Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd**

**3.2.1: hunanarfarnu, gan gynnwys gwrando ar ddysgwyr ac eraill**

Wrth arfarnu trefniadau ac adroddiad hunanarfarnu'r darparwr HCA, bydd y tîm arolygu yn ystyried i ba raddau y mae'r darparwr HCA yn mynd ati'n rheolaidd i gasglu, dadansoddi ac ymateb yn brydlon a phriodol i ystod o dystiolaeth, gan gynnwys safbwyntiau dysgwyr, tiwtoriaid, mentoriaid, arholwyr allanol, penaethiaid ysgolion partneriaeth a phenaethiaid sy'n cyflogi athrawon sydd newydd gymhwyso.

Dylai'r broses hunanarfarnu a chynllunio datblygiad fod yn rhan reolaidd o fywyd gwaith y darparwr HCA. Dylai'r ffocws fod ar nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella, monitro darpariaeth ac asesu deilliannau.

Dylai arolygwyr gadarnhau a yw'r darparwr HCA yn cael ei reoli ar sail asesiad cywir o'i gryfderau a'i wendidau. Mae'n annhebygol y gall ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth fod yn dda os nad oes gan y darparwr weithdrefnau hunanarfarnu effeithiol.

Dylai arolygwyr ystyried a yw proses hunanarfarnu'r darparwr:

- yn cael ei hymgorffori mewn cynllunio strategol ac yn defnyddio gweithdrefnau sicrhau ansawdd rheolaidd;
- yn cynnwys arfarniad a monitro trylwyr o ddata ar safonau ac ar ansawdd yr hyfforddiant, gan gynnwys ystyriaeth i dueddiadau a chynnydd dros gyfnod;
- yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol o ansawdd yr addysgu, yr hyfforddi a'r dysgu;
- yn cynnwys pob un o'r staff wrth asesu deilliannau a'u perfformiad eu hunain;
- yn annog hyfforddeion i rannu eu safbwyntiau a chodi materion, ac yn rhoi ystyriaeth dda i safbwyntiau hyfforddeion;
- yn ystyried safbwyntiau staff, ysgolion partneriaeth a rhanddeiliaid eraill;
- yn defnyddio adolygiadau gan arholwyr allanol ac asiantaethau allanol, lle bo'n briodol;
- yn arwain at gynlluniau datblygu sy'n cael eu monitro yn erbyn targedau a meini prawf llwyddiant clir; ac
- yn arwain at welliant mewn safonau ac ansawdd.

**3.2.2: cynllunio a sicrhau gwelliant**

Bydd y tîm arolygu yn ystyried pa mor drylwyr yw system rheoli perfformiad y darparwr HCA yn nodi arfer dda ac arfer wael, ac wrth rannu arfer effeithiol ymhlith ei aelodau staff ei hun. Bydd y tîm arolygu hefyd yn ystyried pa mor dda y mae'r systemau rheoli perfformiad yn galluogi arweinwyr a rheolwyr i nodi a gwella tanberfformio, yn ogystal ag anghenion hyfforddi generig a phenodol ar gyfer staff mewnol y darparwr HCA.

Bydd arolygwyr yn arfarnu pa mor dda:

- y caiff y cylchoedd gwella ansawdd eu hintegreiddio gyda chylchoedd cynllunio eraill;
- y mae'r darparwr HCA yn blaenoriaethu'r cynlluniau ar gyfer gwella trwy ddyrannu adnoddau a chyfrifoldebau;
- y mae'r darparwr HCA yn gosod graddfeydd amser penodol a realistig i ysgogi gwelliant; ac
- y mae'r camau a gymerwyd wedi cael effaith gadarnhaol a, lle bo'n briodol, wedi arwain at welliannau mesuradwy mewn safonau.

Bydd arolygwyr yn ystyried polisïau'r darparwr HCA a'r modd y mae'r darparwr HCA yn monitro ansawdd y mentora, y cymorth a'r ddarpariaeth mewn ysgolion partneriaeth. Bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae'r darparwr HCA yn nodi arfer dda a pha mor dda y mae'n rhannu arfer effeithiol ymhlith ei ysgolion partneriaeth. Bydd y tîm arolygu hefyd yn ystyried pa mor dda y mae'r darparwr HCA yn nodi ac yn cywiro materion mentora a chymorth gwael mewn ysgolion partneriaeth.

Dylai arolygwyr ystyried sut mae'r darparwr HCA wedi ymateb i argymhellion yr adroddiad arolygu diwethaf ac a yw camau'r darparwr HCA wedi arwain at welliannau mewn safonau ac ansawdd. Gall arolygwyr adrodd ar gynnydd rhagorol neu anfoddhaol.

**Gwella ansawdd yn dda**

Mae arweinwyr a rheolwyr cyrsiau HCA yn hunanfeirniadol ac yn llunio barnau sy'n cyd-fynd yn dda ar y cyfan â barnau'r tîm arolygu. Mae gan y darparwr HCA systemau a gweithdrefnau cadarn i nodi, monitro a rhannu arfer dda, yn ogystal â chywiro meysydd o danberfformio ymhlith ei staff ei hun a staff ysgolion partneriaeth. Mae staff y darparwr HCA yn ymgysylltu'n dda â'r broses o osod targedau i wella eu perfformiad eu hunain. Maent yn ymateb yn dda i gyfleoedd datblygiad proffesiynol ac mae'r rhain yn amlwg yn gwella eu gwaith a'r ddarpariaeth. Mae tiwtoriaid, hyfforddeion a phenaethiaid y bartneriaeth i gyd yn gwneud cyfraniad rheolaidd ac arwyddocaol at adolygu a gwella rhaglenni. Caiff ansawdd y mentora a'r cymorth ar gyfer hyfforddeion ei fonitro'n agos, rhennir arfer dda ac eir i'r afael ag anghysondeb mawr. Mae cynlluniau gweithredu yn SMART a, thrwy'r rhain, mae'r darparwr HCA a'i bartneriaid yn ysgogi gwelliant prydlon yn y ddarpariaeth.

**Gwella ansawdd yn anfoddhaol**

Nid yw arweinwyr a rheolwyr yn monitro agweddau pwysig ar waith y darparwr HCA yn ddigon agos, yn enwedig pa mor dda y mae hyfforddeion yn cyflawni. Nid ydynt yn gwrando ar hyfforddeion, tiwtoriaid, mentoriaid a phenaethiaid yn rheolaidd. O ganlyniad, mae arferion gweithio yn cynnwys anghysondebau pwysig. Nid yw cynlluniau gweithredu i wella safonau ac ansawdd yn cynnwys ffocws da. Nid yw hunanarfarnu yn treiddio trwy bob lefel o'r ddarpariaeth HCA ac mae'r dadansoddi wedi'i gyfyngu i uwch arweinwyr mewn HCA. Er bod cyfleoedd i diwtoriaid ddatblygu eu gwybodaeth broffesiynol eu hunain, nid yw'r rhain yn cyd-fynd yn agos â'r cynlluniau strategol ar gyfer y darparwr HCA ac nid ydynt yn arwain at welliannau mewn darpariaeth cyrsiau. Mae barnau'r darparwr HCA yn yr adroddiad hunanarfanu yn anghytuno'n sylweddol â barnau'r tîm arolygu.

## 3.3 Gweithio mewn partneriaeth

### 3.3.1 partneriaethau strategol
### 3.3.2 cynllunio, darparu adnoddau a sicrhau ansawdd ar y cyd

**Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd**

**3.3.1: partneriaethau strategol**

Erbyn Medi 2010, bydd darparwyr HCA yng Nghymru wedi ail-ffurfweddu i fod yn dair Canolfan Addysg Athrawon (CAA), pob un gyda dau sefydliad yn gweithio gyda'i gilydd. Yn ychwanegol, bydd Y Brifysgol Agored yng Nghymru yn cynnig nifer fach o leoedd i raddedigion sy'n dymuno hyfforddi trwy gwrs dysgu o bell. Mae hyfforddiant sy'n seiliedig ar gyflogaeth i athrawon (HSGA) yn cynnig y cyfle i hyfforddi a chymhwyso fel athro/athrawes wrth weithio yn yr ysgol. Ar hyn o bryd, cynhelir hwn trwy'r Rhaglen Athrawon Graddedig, sy'n cynnig nifer fach o leoedd i raddedigion.

Wrth arolygu HCA yn y tair Canolfan Addysg Athrawon, bydd arolygwyr yn ystyried i ba raddau y mae uwch arweinwyr cyrsiau HCA yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i resymoli a lleihau nifer y cyrsiau HCA sy'n cael eu dyblygu. Bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae'r partneriaid yn y Canolfannau Addysg Athrawon yn defnyddio eu cryfderau unigryw a chyfunol i gynnig cyrsiau HCA priodol sy'n bodloni anghenion hyfforddeion a blaenoriaethau cenedlaethol.

Wrth arolygu'r Brifysgol Agored yng Nghymru, bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae'r Brifysgol Agored yn cynllunio ei darpariaeth yn strategol i ategu'r ddarpariaeth a gynigir gan y Canolfannau Addysg Athrawon a'r llwybr HSGA yng Nghymru.

Wrth arolygu HSGA, bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae'r ddarpariaeth yn ategu darpariaeth arall yng Nghymru.

Bydd arolygwyr yn ystyried i ba raddau y mae uwch arweinwyr HCA yn creu cyfleoedd i'w staff ymgymryd ag addysg athrawon sy'n canolbwyntio ar ymchwil sy'n gwella'r cyrsiau a gynigir ac yn rhoi darparwyr HCA ar flaen y gad o ran datblygu HCA.

Bydd arolygwyr hefyd yn ystyried pa mor dda y mae uwch arweinwyr mewn prifysgolion ac ysgolion yn arwain ac yn cefnogi datblygiadau HCA.

Mae pob un o'r darparwyr HCA achrededig yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion. Ar hyn o bryd, gall rhywfaint o'r HSGA gael ei gynnal yn uniongyrchol gan ysgol, lle mae'r ysgol HCA yn gorff argymell o dan y Rhaglen Athrawon Graddedig.

O dan ofyniad R2.5 y Gofynion ar gyfer Darparu Cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon yn Atodiad A i'r Meini Prawf ar gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, dylai hyfforddeion dreulio cyfran uchel o'u cyfnod ar y cwrs yn cael eu hyfforddi mewn ysgolion. Felly, mae'n bwysig

bod yr ystod o ysgolion y mae'r darparwr HCA yn ffurfio partneriaeth â nhw yn gallu darparu ystod briodol ac eang o brofiadau ar gyfer hyfforddeion. Yn ogystal, mae'n bwysig bod hyfforddeion yn cael eu cefnogi ar brofiad ysgol mewn ffordd sy'n eu galluogi i wneud cynnydd cyson yn erbyn y safonau SAC. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i ddarparwyr HCA a phartneriaid ysgol gydweithio'n agos i ddatblygu'r rhaglen hyfforddi a'r meini prawf asesu.

Wrth arfarnu ansawdd y bartneriaeth, bydd arolygwyr yn ystyried i ba raddau y mae:

- meini prawf dewis a dad-ddewis clir ar gyfer ysgolion partneriaeth a'r graddau y caiff y rhain eu rhannu gydag ysgolion;
- cytundebau ysgrifenedig am yr hyfforddiant a'r cyfleoedd y mae ysgolion partneriaeth yn eu darparu;
- cyfleoedd i ysgolion gyfrannu at ddatblygu a sicrhau ansawdd y rhaglen HCA yn gyffredinol;
- dealltwriaeth ar y cyd rhwng tiwtoriaid a mentoriaid o'r meini prawf asesu a'u cymhwyso;
- cyfleoedd i diwtoriaid a mentoriaid safoni barnau am gyflawniadau hyfforddeion unigol a chyflawniadau'r garfan;
- arferion gweithio da i ddatrys materion sy'n ymwneud â chymorth hyfforddeion;
- cyfleoedd rheolaidd i fentoriaid ddiweddaru eu gwybodaeth am y safonau ar gyfer Statws Athro Cymwys, y gofynion ar gyfer HCA a medrau mentora;
- cyfleoedd a chymorth wedi'i dargedu ar gyfer y rhai sy'n diwtoriaid am y tro cyntaf i ddysgu am y rhaglen HCA, y safonau SAC a'r Gofynion ar gyfer Darparu Cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon a medrau mentora; a
- chyfleoedd i fentoriaid ddatblygu a, lle bo'n briodol, achredu eu medrau mentora.

Bydd arolygwyr hefyd yn ystyried i ba raddau y mae'r darparwr HCA:

- yn cymryd camau rhesymol i hysbysu hyfforddeion a mentoriaid mewn ysgol bartneriaeth ynghylch sut gallant gwyno neu apelio pe baent yn dymuno gwneud hynny; ac
- yn sicrhau bod pobl ddiduedd yn delio â chwynion yn brydlon ac yn gyson.

Dylai'r prif ffocws yn y dangosydd ansawdd hwn fod ar effaith partneriaethau strategol ar safonau a lles hyfforddeion, ac nid ar nifer ac ystod y partneriaid neu natur ac ansawdd y trefniadau partneriaeth yn unig.

### 3.3.2: cynllunio, darparu adnoddau a sicrhau ansawdd ar y cyd

Wrth arolygu HCA, bydd arolygwyr yn ystyried i ba raddau y mae darparwyr HCA yn cyd-gynllunio a darparu adnoddau ar gyfer eu rhaglenni gydag ysgolion partneriaeth. Bydd arolygwyr hefyd yn ystyried pa mor dda y mae'r sefydliadau partner yn y Ganolfan Addysg Athrawon yn cynllunio'r ddarpariaeth ac yn sicrhau adnoddau ar ei chyfer. Bydd arolygwyr yn edrych i weld a yw'r defnydd gorau'n cael ei wneud o gyllid ar draws y partneriaethau i sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl i hyfforddeion gwblhau eu hyfforddiant a bodloni'r safonau ar gyfer SAC.

Wrth edrych ar sicrhau ansawdd, bydd arolygwyr yn ystyried i ba raddau y mae egwyddorion clir ar waith sy'n ategu strategaethau sicrhau ansawdd a bod yr

egwyddorion hyn yn cael eu rhannu a'u rhoi ar waith gan bob un o'r partneriaid. Mae hyn yn cynnwys dewis a datblygu mentoriaid ac ysgolion partneriaeth. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r darparwr HCA yn sicrhau ansawdd y ddarpariaeth sy'n cael ei darparu gan bob partner ac yn arfarnu'r deilliannau a gyflawnir gan hyfforddeion pan fyddant yn hyfforddi mewn ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth yn dda**

Mae'r darparwr HCA yn gweithio'n dda gyda'i bartneriaid uniongyrchol i wella'r ddarpariaeth. Mae'n rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau a mentrau cenedlaethol. Mae gan y darparwr HCA rôl allweddol yn y sector, gan rannu arfer dda i ysgogi cysondeb a safonau uwch. Mae uwch arweinwyr mewn prifysgolion ac ysgolion yn dangos diddordeb gweithredol mewn cyrsiau HCA a gynigir gan eu sefydliadau. Maent yn darparu arweiniad clir a chymorth da ar gyfer arweinwyr y rhaglenni hyn. Mae arweinwyr HCA yn rhoi pwyslais cryf ar staff y brifysgol yn ymgymryd ag ymchwil sy'n gwella darpariaeth cyrsiau.

Mae'r darparwr HCA a'i ysgolion partner wedi sefydlu partneriaeth gref sy'n cyfoethogi darpariaeth y cwrs. Mae trefniadau gweinyddol gydag ysgolion partneriaeth yn effeithiol ac yn darparu ystod eang a phriodol o brofiadau addysgu a chyfoethogi ar gyfer hyfforddeion. Mae'r rhain yn cynnwys cysylltiadau sefydledig gydag ystod o sefydliadau ac asiantaethau eraill sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a lles plant a phobl ifanc ac yn dod â dimensiwn ychwanegol i'r hyfforddiant. Mae gan diwtoriaid, mentoriaid ac uwch fentoriaid ddealltwriaeth ar y cyd am asesu hyfforddeion a disgwyliadau ynglŷn â'u baich gwaith. Mae gan gynrychiolwyr o ysgolion partneriaeth rôl weithredol mewn datblygu'r rhaglenni hyfforddi ac maent yn cymryd rhan yn llawn mewn dewis ymgeiswyr. Mae sicrhau ansawdd partneriaethau yn effeithiol wrth wella darpariaeth a safonau. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer dewis a dad-ddewis ysgolion partneriaeth yn cael eu gweinyddu'n glir ac yn deg. Mae'r darparwr HCA yn cynnig rhaglenni a chyfleoedd hyfforddi wedi'u cynllunio'n dda i fentoriaid ddiweddaru ac ymestyn eu gwybodaeth a'u medrau mentora proffesiynol.

**Gweithio mewn partneriaeth yn anfoddhaol**

Nid yw'r darparwr HCA yn gweithio'n agos gyda'i bartneriaid uniongyrchol i wella'r ddarpariaeth. Ychydig iawn o ystyriaeth y mae'n ei rhoi i flaenoriaethau a mentrau cenedlaethol. Nid yw'n cyfrannu'n sylweddol at y sector, er enghraifft, trwy geisio dod â chysondeb a dilyn agenda ar gyfer gwella. Ychydig iawn o ddiddordeb sydd gan uwch reolwyr mewn prifysgolion ac ysgolion mewn rhaglenni HCA, ac nid ydynt yn cynnig llawer o arweiniad na chymorth. Ychydig iawn o bwyslais y mae arweinwyr HCA yn ei roi ar staff y brifysgol yn ymgymryd ag ymchwil sy'n gwella darpariaeth cyrsiau.

Mae'r cyfathrebu rhwng y darparwr HCA a'i ysgolion partneriaeth yn annigonol. Mae anghysondeb mawr yn yr arferion gweithio ymhlith ysgolion partneriaeth ar faterion fel asesu hyfforddeion. Mae meini prawf dewis a dad-ddewis ysgolion partneriaeth yn aneglur, ni chânt eu defnyddio'n dda neu nid ydynt yn bodoli. Nid yw'r darparwr HCA wedi sefydlu canllawiau digon clir i ddiogelu lles hyfforddeion yn ystod profiadau ysgol sy'n ymwneud â chytundeb baich gwaith neu weithdrefnau amddiffyn plant, er

enghraifft. Prin yw'r cyfleoedd a gaiff ysgolion partneriaeth i gyfrannu at ddatblygu rhaglenni darparwyr HCA. Er bod gan y darparwr HCA ystod o gysylltiadau gyda sefydliadau, nid yw'r rhain yn cael eu defnyddio'n rheolaidd i wella'r ddarpariaeth a phrin yw'r synnwyr o weledigaeth ar y cyd ar gyfer hyfforddiant ac addysg hyfforddeion. Er efallai fod cyfarfodydd partneriaeth yn cael eu cynnal yn rheolaidd, nid ydynt yn gwneud gwahaniaeth arwyddocaol i ansawdd neu gyfeiriad rhaglenni hyfforddi. Ychydig iawn y mae llawer o ysgolion partneriaeth yn ei wybod am yr hyn a ddisgwylir ganddynt o ran hyfforddi ac asesu hyfforddeion. Er bod rhaglenni hyfforddi mentoriaid ar waith, nid ydynt yn gyffredinol yn ysgogi gwelliannau mewn arferion cydweithio.

## 3.4 Rheoli adnoddau

### 3.4.1 rheoli staff ac adnoddau
### 3.4.2 gwerth am arian

**Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd**

Fel arfer, ni ddylai'r farn gyffredinol ar y dangosydd ansawdd hwn fod yn uwch na'r farn ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1, ond gallai fod yn is.

Wrth arolygu rheoli adnoddau, bydd arolygwyr yn barnu pa mor dda y mae'r darparwr yn cynllunio ac yn cynnal strategaethau effeithiol i sicrhau ei fod yn cyflawni gwerth am arian yn y ffordd y mae'n rheoli adnoddau.

**3.4.1: rheoli staff ac adnoddau**

Wrth arolygu staffio HCA, bydd arolygwyr yn ystyried a yw staff yn y ddarpariaeth yn y brifysgol ac yn yr ysgol yn meddu ar gymwysterau priodol a gwybodaeth broffesiynol gyfoes a pha mor dda y cânt eu defnyddio i fodloni anghenion hyfforddeion.

Wrth lunio barnau am reoli adnoddau, bydd y tîm arolygu yn ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio adnoddau i wneud y gorau o ddarpariaeth a chymorth ansawdd uchel ar gyfer hyfforddeion. Bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda y caiff yr adnoddau eu gweddu i gynlluniau gweithredu, eu monitro a'u hadolygu i sicrhau eu bod yn cael yr effaith orau.

Fel rhan o adolygu'r adnoddau, bydd y tîm arolygu'n ystyried cymwysterau, profiad a'r defnydd a wneir o staff y darparwr HCA ei hun o ran bodloni anghenion hyfforddi a phu'n a yw ei ddewis o ysgolion partneriaeth yn darparu lleoliadau o ansawdd uchel. Bydd y tîm arolygu hefyd yn ystyried pa mor dda y mae'r darparwr HCA yn defnyddio ei staff i sicrhau bod hyfforddeion yn derbyn hyfforddiant o ansawdd cyson uchel a'r adnoddau sydd wedi'u neilltuo i'r bartneriaeth i sicrhau lleoliadau hyfforddiant o ansawdd uchel.

Mae datblygiad proffesiynol staff y darparwr HCA yn allweddol i gynnal a gwella ansawdd hyfforddiant cychwynnol i athrawon. Bydd y tîm arolygu yn rhoi ystyriaeth

i'r graddau y mae aelodau o staff y darparwr HCA yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ac yn creu gwybodaeth am hyfforddiant, addysgu a dysgu trwy ymchwil a chydweithrediadau eraill gyda rhwydweithiau proffesiynol yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol. Bydd y tîm arolygu yn ystyried effaith y mathau hyn o ddatblygiad ar wella ansawdd y ddarpariaeth mewn rhaglenni HCA a phartneriaethau ysgol, ac yn rhoi sylw penodol i'r farn ar gyfer ansawdd yr addysgu (2.2).

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda y mae'r darparwr HCA yn datblygu fel cymuned ddysgu gref ac yn cyflawni diwylliant o gydweithio o fewn ac ar draws ysgolion. Dylai arolygwyr ystyried y trefniadau i gefnogi ymgysylltiad gweithredol pob un o'r staff wrth gynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau proffesiynol. Wrth ystyried barnau o dan 2.2 ar addysgu a hyfforddi, dylai arolygwyr farnu i ba raddau y mae'r staff:

- yn cael eu cefnogi gan ddatblygiad parhaus;
- yn caffael gwybodaeth a medrau newydd i ddatblygu dulliau arloesol o addysgu a dysgu;
- yn cymryd rhan mewn arsylwadau ystafell ddosbarth uniongyrchol;
- yn rhannu arfer dda gyda thiwtoriaid a phobl broffesiynol eraill o fewn y darparwr a thu hwnt;
- yn myfyrio ar eu harfer eu hunain; ac
- yn arfarnu effaith dysgu proffesiynol ar ddysgu a lles eu hyfforddeion.

Dylai arolygwyr ganolbwyntio llai ar fanylder y cyllidebau ariannol nag ar y graddau y mae penderfyniadau gwariant a chynllunio ariannol bras y darparwr HCA wedi'u seilio ar flaenoriaethau ar gyfer gwario ar welliant dros gyfnod.

Dylent ystyried y graddau y mae arweinwyr a rheolwyr:

- yn gwybod costau rhaglenni a gweithgareddau presennol ac yn adolygu gwariant yn barhaus;
- yn nodi blaenoriaethau a meysydd i'w datblygu ac yn dyrannu adnoddau yn briodol ac yn unol â meini prawf clir i adlewyrchu amcanion cytûn y darparwr; ac
- yn gwneud trefniadau cyllidebu systematig a chywir, gan gynnwys trefniadau priodol ar gyfer cronfeydd wrth gefn.

### 3.4.2: gwerth am arian

Wrth arolygu gwerth am arian, dylai arolygwyr ystyried effeithiolrwydd yr ysgol wrth gyflawni deilliannau da neu ragorol ar gyfer hyfforddeion yng Nghwestiwn

Allweddol 1. Fodd bynnag, os yw adnoddau'n cael eu rheoli'n wael, hyd yn oed os yw'r deilliannau'n dda, dylai'r farn gyffredinol adlewyrchu'r meysydd i'w gwella a nodwyd.

Dylai arolygwyr arfarnu'r canlynol:

- effeithiolrwydd y ddarpariaeth wrth sicrhau deilliannau priodol ar gyfer hyfforddeion yn gyffredinol;

- pa mor dda y mae arweinwyr yn rheoli cyllid ac adnoddau i gyflawni blaenoriaethau addysgol;
- i ba raddau y mae'r darparwr HCA yn sicrhau cydbwysedd yn llwyddiannus rhwng effeithiolrwydd ei ddarpariaeth yn erbyn costau, gan gynnwys costau staffio; ac
- i ba raddau y mae'n gwneud defnydd da o'r cyllid a gaiff.

Bydd arolygwyr yn ystyried i ba raddau y mae'r darparwr HCA wedi elwa ar fanteision effeithlonrwydd i drefniadau uno, ad-drefnu neu drefniadau cydweithredol. Dylai arolygwyr ddatgan yn yr adroddiad bod y darparwr HCA yn cynnig gwerth rhagorol, da, digonol neu anfoddhaol am arian o ran y defnydd a wneir o'r gyllideb a ddyrennir i'r darparwr.

**Rheoli staff ac adnoddau yn dda**

Mae'r darparwr HCA yn rheoli ei staff a'i adnoddau yn effeithiol i gefnogi hyfforddeion. Mae gan y staff gymwysterau da ac fe gânt eu defnyddio'n briodol. Mae medrau a phrofiadau staff yn gweddu i anghenion dysgwyr yn dda. Mae staff y darparwr HCA yn ymgysylltu ag ystod o rwydweithiau proffesiynol sy'n galluogi iddynt ddilyn hynt a helynt arfer broffesiynol.

Mae caffael adnoddau yn cyd-fynd yn agos â chynlluniau strategol ac fe gaiff eu defnydd ei archwilio'n ofalus. Mae penderfyniadau gwariant y darparwr yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau ar gyfer gwella a budd hyfforddeion. Buddsoddir yn dda mewn adnoddau ac adeiladau i alluogi hyfforddeion i wneud cynnydd da yn eu hyfforddiant ac fel bod lles hyfforddeion yn cael ei ystyried yn llawn.

Mae'r darparwr HCA yn ymchwilio i'w ysgolion partneriaeth yn dda i sicrhau bod yr ysgol yn gallu darparu lleoliad o ansawdd uchel. Mae defnyddio adnoddau ar y cyd drwy waith partneriaeth effeithiol yn cynnig gwerth da am arian gan ei fod yn cyfrannu at ddeilliannau gwell, a deilliannau da yn gyffredinol, i hyfforddeion. At ei gilydd, mae'r deilliannau i hyfforddeion yn dda. Nid oes unrhyw safonau anfoddhaol neu agweddau anfoddhaol i'r ddarpariaeth.

**Rheoli staff ac adnoddau yn anfoddhaol**

Nid yw'r darparwr HCA yn canolbwyntio ei reolaeth ar adnoddau ar ddarpariaeth a chymorth o ansawdd uchel ar gyfer hyfforddeion. Nid oes gan y staff gymwysterau priodol. Nid yw'r darparwr HCA yn cyflogi digon o staff i gyflwyno'r cwricwlwm llawn ac nid yw'r staff presennol yn cael eu defnyddio'n dda. Anaml y mae staff y darparwr HCA yn ymgysylltu â rhwydweithiau arfer broffesiynol. Mae caffael adnoddau yn cyfateb yn wael i gynlluniau strategol ac ni chaiff eu defnydd ei archwilio'n systematig. Gwael yw'r cyflenwadau o adnoddau, llyfrau a ffynonellau electronig cyfoes mewn llyfrgelloedd a chanolfannau adnoddau dysgu. Mae'r buddsoddiad mewn adnoddau ac adeiladau yn wael ac ni ystyrir lles hyfforddeion. Nid yw'r darparwr HCA yn ymchwilio i'w ysgolion partneriaeth yn ddigon da i sicrhau eu bod yn gallu darparu lleoliadau o ansawdd uchel. Nid yw'r darparwr HCA yn darparu gwerth da am arian ar gyfer ei hyfforddeion.

## Atodiad 1: Y Fframwaith Arolygu Cyffredin

| CWA | Dangosyddion Ansawdd | Agweddau |
|---|---|---|
| 1 DEILLIANNAU | **1.1 Safonau** | 1.1.1 canlyniadau a thueddiadau mewn perfformiad o'u cymharu â chyfartaleddau cenedlaethol, darparwyr tebyg a chyrhaeddiad blaenorol<br>1.1.2 safonau grwpiau o ddysgwyr<br>1.1.3 cyflawniad a chynnydd wrth ddysgu<br>1.1.4 medrau<br>1.1.5 yr iaith Gymraeg |
| | **1.2 Lles** | 1.2.1 agweddau at gadw'n iach a diogel<br>1.2.2 cyfranogi mewn dysgu a'i fwynhau<br>1.2.3 ymglymiad cymunedol a gwneud penderfyniadau<br>1.2.4 medrau cymdeithasol a medrau bywyd |
| 2 DARPARIAETH | **2.1 Profiadau dysgu** | 2.1.1 bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr/y gymuned<br>2.1.2 darpariaeth ar gyfer medrau<br>2.1.3 darpariaeth Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig<br>2.1.4 addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang |
| | **2.2 Addysgu** | 2.2.1 ystod ac ansawdd y dulliau addysgu<br>2.2.2 asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu |
| | **2.3 Gofal, cymorth ac arweiniad** | 2.3.1 darpariaeth ar gyfer iechyd a lles, gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol<br>2.3.2 gwasanaethau, gwybodaeth ac arweiniad arbenigol<br>2.3.3 trefniadau diogelu<br>2.3.4 anghenion dysgu ychwanegol |
| | **2.4 Yr amgylchedd dysgu** | 2.4.1 ethos, cydraddoldeb ac amrywiaeth<br>2.4.2 amgylchedd ffisegol |
| 3 ARWEINYDDIAETH | **3.1 Arweinyddiaeth** | 3.1.1 cyfeiriad strategol ac effaith yr arweinyddiaeth<br>3.1.2 llywodraethwyr neu fyrddau goruchwylio eraill |
| | **3.2 Gwella ansawdd** | 3.2.1 hunanarfarnu, gan gynnwys gwrando ar ddysgwyr ac eraill<br>3.2.2 cynllunio a sicrhau gwelliant |
| | **3.3 Gweithio mewn partneriaeth** | 3.3.1 partneriaethau strategol<br>3.3.2 cynllunio, darparu adnoddau a sicrhau ansawdd ar y cyd |
| | **3.4 Rheoli adnoddau** | 3.4.1 rheoli staff ac adnoddau<br>3.4.2 gwerth am arian |

## Atodiad 2: Ffynonellau tystiolaeth

| | Cwestiwn Allweddol 1 | | Cwestiwn Allweddol 2 | | | | Cwestiwn Allweddol 3 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **1.1** | **1.2** | **2.1** | **2.2** | **2.3** | **2.4** | **3.1** | **3.2** | **3.3** | **3.4** |
| **Tystiolaeth uniongyrchol:** | | | | | | | | | | |
| Arsylwadau o addysgu hyfforddeion, gweithgareddau y tu allan i'r dosbarth a gweithgareddau cyfoethogi a gweithgarwch dysgu annibynnol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | |
| Craffu ar waith cyfredol a blaenorol hyfforddeion, gan gynnwys tystiolaeth o ymglymiad mewn gweithgareddau cyfoethogi, ardystiad a gafwyd trwy gyrsiau ychwanegol, adroddiadau tiwtoriaid a mentoriaid ac adborth a gwaith dilynol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | | |
| Yr adnoddau dysgu sydd ar gael ar safleoedd y darparwr HCA ac ar safleoedd ysgolion, gan gynnwys darpariaeth llyfrgell, a mynediad gan hyfforddeion i ystod briodol o lyfrau, adnoddau TGCh, offer ymarferol a deunyddiau clyweled i gefnogi'r dysgu a'r addysgu yn ystod a'r tu allan i hyfforddiant yn yr ysgol | | | | ✓ | ✓ | ✓ | | | | |
| Cyflwr, ymddangosiad a'r defnydd o leoliadau, adeiladau ac ansawdd arddangosiadau ar safle'r darparwr HCA | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | |
| Y defnydd o adeiladau, offer, cymhorthion arbenigol ac adnoddau eraill i gefnogi mynediad a datblygiad hyfforddeion | | | | | ✓ | ✓ | | | | ✓ |
| Cynnwys hyfforddeion wrth gynllunio ac arwain gweithgareddau y tu allan i'r dosbarth, fel mynd â disgyblion i gyfleusterau preswyl, ar ymweliadau addysgol a chymunedol, i ddatblygu dealltwriaeth hyfforddeion o'u rôl ehangach fel athro | | | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | | |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y cymorth sydd ar gael i hyfforddeion, fel y trefniadau addysgu, cymorth ar gyfer ADY, gan gynnwys defnydd o staff a gwasanaethau cymorth ac asiantaethau allanol a'r cyswllt rhwng y darparwr HCA ac ysgolion partneriaeth i ddarparu cymorth cydlynus | | | | | ✓ | ✓ | | ✓ | | |
| Holiaduron a chyfweliadau hyfforddeion | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Astudiaethau achos hyfforddeion | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| **Dogfennau:** | | | | | | | | | | |
| Yr adroddiad hunanarfarnu | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Data ar gyfraddau cadw, cyrhaeddiad, dilyniant, gwerth ychwanegol (lle bo'n berthnasol), presenoldeb a phrydlondeb hyfforddeion ar draws y bartneriaeth | ✓ | ✓ | | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Dadansoddiad y darparwr HCA o ddata ar gyfraddau hyfforddeion o ran cwblhau, cyrhaeddiad, oedi a thynnu'n ôl yn erbyn gwybodaeth feincnodi genedlaethol pan fydd ar gael | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | | |
| Defnydd y darparwr HCA o wybodaeth gyd-destunol am hyfforddeion, gan gynnwys cyrhaeddiad blaenorol, amddifadedd, ac ati | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | |
| Adolygiadau rhaglen, gan gynnwys dadansoddiad o arfarniadau rhanddeiliaid | | | | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cofnodion olrhain y partneriaethau o gynnydd hyfforddeion | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | |
| Cofnodion arholiadau allanol a mewnol, gan gynnwys adroddiadau arholwyr allanol | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Enghreifftiau o ffeiliau, portffolios a gwaith ymarferol hyfforddeion | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | |
| Cofnodion o gyfarfodydd safoni cyrff dyfarnu | ✓ | | | | ✓ | | | | ✓ | |
| Dogfennaeth gwrs y darparwr HCA, gan gynnwys llawlyfrau'r cwrs, llawlyfrau yn yr ysgol, strategaethau asesu a marcio, cynlluniau a chofnodion | | | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Enghreifftiau o adroddiadau cynnydd a ddefnyddir gan y darparwr HCA a chofnodion o adolygiadau cynnydd hyfforddeion | | | | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | |
| Gwaith hyfforddeion wedi'i farcio a'u gwaith ymarferol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | |
| Cynlluniau dysgu unigol hyfforddeion, cofnodion ac archwiliadau myfyriol (e.e. pwnc, llythrennedd, rhifedd a TGCh) | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | | ✓ | |
| Systemau recriwtio a dewis y darparwr HCA ar gyfer cyrsiau hyfforddi HCA | ✓ | | | | | | | | ✓ | |
| Tystiolaeth glywedol, recordiad fideo a ffotograffig o hyfforddeion yn defnyddio eu gwybodaeth a'u medrau | ✓ | ✓ | | ✓ | | | | | ✓ | |
| Gwybodaeth am drefniadau rheoli cyllideb, gan gynnwys trefniadau ar gyfer gosod blaenoriaethau, talu ysgolion partneriaeth ac adnoddau | | | | | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Dogfennaeth a chynlluniau cwricwlwm y darparwr HCA, gan gynnwys:<br>• archwiliadau o'r cwricwlwm ac arolwg o anghenion hyfforddeion a thystiolaeth o'r defnydd a wneir ohonynt i ddarparu hyfforddiant cydlynus sy'n cynnig cyfleoedd priodol i hyfforddeion fodloni'r safonau ar gyfer statws athro cymwys a chael ymwybyddiaeth o fentrau newydd addysg Gymraeg;<br>• ystadegau rheoli a data arall a ddefnyddir ar gyfer cynllunio a monitro'r ddarpariaeth;<br>• ystadegau medrau sylfaenol;<br>• ystadegau'r iaith Gymraeg;<br>• ystadegau cyrchfan;<br>• gwybodaeth am y farchnad lafur, ymchwil i'r farchnad a thystiolaeth o'r defnydd a wneir ohoni;<br>• cynlluniau gwaith ac amserlenni; a<br>• holiaduron cyflogwyr a hyfforddeion | | | ✓ | | | | ✓ | ✓ | ✓ | |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Polisïau a gweithdrefnau'r darparwr HCA ar gyfer sefydlu hyfforddeion, cynorthwyo hyfforddeion, iechyd a diogelwch, profion diagnostig, cyfle cyfartal, cydraddoldeb hiliol a diogelu, o ran ei bolisi ei hun a disgwyliadau hyfforddeion ac ysgolion | | ✓ | | | | ✓ | | ✓ | | |
| Cofnodion y darparwr HCA o brofion diagnostig, nifer yr hyfforddeion sy'n manteisio ar gymorth dysgu a'i effaith; ei drefniadau i gynorthwyo dysgwyr ag anawsterau dysgu a/neu anableddau | | ✓ | | | | ✓ | | ✓ | | |
| Ei gofnodion a'i ymateb i gwynion ac apeliadau; ei gofnodion a'i ymateb i faterion yn deillio o asesiad risg iechyd a diogelwch | | ✓ | | | | ✓ | | ✓ | | |
| Datganiad cenhadaeth, cynlluniau strategol a gweithredol, a datganiadau polisi perthnasol y darparwr HCA | | | ✓ | | | | ✓ | ✓ | | |
| Deunyddiau marchnata a chyhoeddusrwydd y darparwr HCA, yn enwedig y rhai sydd wedi'u hanelu at annog recriwtio hyfforddeion o grwpiau penodol | | | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Strwythurau trefnu a rheoli'r darparwr HCA; gan gynnwys strwythurau pwyllgor; cofnodion cyfarfodydd uwch reolwyr, rheolwyr, timau cwrs a grwpiau eraill; gwybodaeth am y pwyllgor llywio a/neu'r pwyllgor ymgynghorol, eu haelodaeth a'u swyddogaeth; trefniadau ar gyfer cyfathrebu gyda staff; cyfathrebu gyda hyfforddeion a'r arolygon diweddaraf o hyfforddeion | | | | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynllun datblygu ansawdd y darparwr HCA | | | | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Unrhyw adroddiadau cyfredol am y darparwr HCA, e.e. adroddiadau QAA, adroddiadau ysgol Estyn | | | | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Data’r darparwr HCA ar berfformiad ym mhob agwedd ar ei waith, gan gynnwys cofnodion o unrhyw weithgarwch meincnodi a gynhaliwyd gan y darparwr HCA yng Nghymru a’r tu allan fel y bo’n briodol, data gwerth ychwanegol a chofnodion ar sut y cafodd ei ddefnyddio fel rhan o’r strategaeth gwella ansawdd | ✓ | | | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cofnodion ac adroddiadau’r darparwr HCA ar roi’r trefniadau rheoli perfformiad ar waith ar gyfer staff; cofnodion y darparwr HCA o arsylwi sesiynau a strategaethau gweithredu ar gyfer gwella ansawdd y ddarpariaeth; gwybodaeth am osod targedau | | | | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Polisïau, gweithdrefnau a chofnodion y darparwr HCA o sefydlu a datblygu staff, DPP, hyfforddiant a chymwysterau staff | | | | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gwybodaeth am drefniadau partneriaeth rhwng y darparwr HCA ac ysgolion partneriaeth, gan gynnwys cytundebau partneriaeth, meini prawf dewis a dad-ddewis ar gyfer ysgolion partneriaeth, rhannu arfer dda o ran mentora, sefydlu hyfforddeion, trefniadau ar gyfer darparu cyngor a gwybodaeth i fentoriaid a hyfforddeion, cydlynu’r cwricwlwm a threfniadau parhad a dilyniant, a dogfennaeth yn ymwneud â chysylltiadau a pherthnasoedd gyda sefydliadau eraill a allai fod yn gysylltiedig | | | ✓ | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Trafodaeth:** | | | | | | | | | | |
| Trafodaethau gyda hyfforddeion yn ystod ymweliadau ag ysgolion, mewn darlithoedd, mewn cyfarfodydd wedi’u cynllunio ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Trafodaethau gydag arweinwyr, rheolwyr, tiwtoriaid, penaethiaid, mentoriaid ac aelodau o gyrff goruchwylio mewn cyfarfodydd wedi’u cynllunio | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

## Atodiad 3:  Rheoliadau ac arweiniad

**Deddfwriaeth:  Offerynnau Statudol**

- Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004 (SI 2004/1729), fel y maent wedi'u diwygio gan Reoliadau Addysg (Diwygiadau i Reoliadau ynglŷn â Chydnabod Cymwysterau Proffesiynol) (Cymru) 2007 (SI 2007/2811) a Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Diwygio) (Cymru) 2008 (SI 2008/215)
- Rheoliadau Addysg (Gwaith a Chofrestru Penodol) (Cymru) 2004 (SI 2004/1744)

**Deddfwriaeth:  Offerynnau Anstatudol Llywodraeth Cymru**

- Safonau Statws Athro Cymwys Cymru 2009 (2009 Rhif25)
- Meini Prawf ar gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 2006 (2006 Rhif50)
- Meini Prawf ar gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (Diwygiad) 2006 (2006 Rhif75)
- Cynllun Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon wedi'i Seilio ar Gyflogaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2006 (2006 Rhif8)
- Cynllun Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon wedi'i Seilio ar Gyflogaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Diwygiad) 2006 (2006 Rhif74)

Sylwer:  Gall deddfwriaeth eilradd neu is-ddeddfwriaeth fod yn Offerynnau Statudol, a wnaed o dan bwerau wedi'u darparu mewn Deddfau neu Fesurau'r Cynulliad; neu Offerynnau Anstatudol.  Nid offerynnau statudol yw'r olaf, ond maent yn ddeddfwriaethol o ran eu cymeriad ac yn addasu hawliau a dyletswyddau cyfreithiol.

**Arweiniad:  Cylchlythyrau Llywodraeth Cymru**

**Dod yn Athro Cymwys:  Llawlyfr Arweiniad – Cylchlythyr Rhif: 017/2009, Llywodraeth Cynulliad Cymru**

(Mae hwn yn disodli Cylchlythyr Rhif:  041/2006.  Mae Atodiad A Cylchlythyr Rhif: 017/2009 yn rhestru'r prif ddogfennau statudol a dogfennau arweiniad sy'n ymwneud â gofal ac addysg plant a phobl ifanc a rôl a chyfrifoldebau athrawon.)

**Rheoliadau Addysg (Gwaith a Chofrestru Penodol) (Cymru) 2004 a Safonau Proffesiynol (Diwygiedig) ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch – Cylchlythyr Rhif:  029/2008, Llywodraeth Cynulliad Cymru**

(Mae hwn yn disodli Cylchlythyr Rhif:  042/2004)

**Rhaglen Athrawon Graddedig:  Arweiniad ar Gynllun Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon wedi'i Seilio ar Gyflogaeth 2006 – Cylchlythyr Rhif:  035/2008 Llywodraeth Cynulliad Cymru**

(Mae hwn yn disodli Cylchlythyr Rhif:  06/2006)

**Diogelu**

- Gofalu am y Rhai sy'n Ifanc ac yn Agored i Niwed, Arweiniad ar gyfer Atal Camddefnyddio Ymddiriedaeth 1999
- Mewn Dwylo Diogel: rhoi gweithdrefnau amddiffyn oedolion ar waith yng Nghymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2000
- Deddf Troseddau Rhywiol (Diwygiad) 2003
- Deddf Plant 1989 a 2004
- Diogelu Plant:  Cydweithio o dan Ddeddf Plant 2004 – Cylchlythyr 12/2007 Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006: Gweithgareddau a Reolir (Cymru)
- Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008
- Diogelu Plant mewn Addysg: rôl awdurdodau lleol a chyrff llywodraethol o dan Ddeddf Addysg 2002 – Cylchlythyr 005/2008 Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Amddiffyn Plant: atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn y gwasanaeth addysg, Cylchlythyr 34/02 Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Clywch: Adroddiad y Comisiynydd Plant www.complantcymru.org.uk
- Addysgu Drama: Canllawiau ar Ddiogelu ac Amddiffyn Plant i Reolwyr ac Ymarferwyr Drama – Cylchlythyr 23/2006 Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Radicaleiddio ac eithafiaeth: Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogeledd 2015
- Polisi a gweithdrefnau Estyn ar gyfer diogelu 2009

**Arweiniad Estyn**

- Gwrando ar ddysgwyr (Gorffennaf 2004)

## Atodiad 4: Arweiniad ar ddefnyddio data mewn arolygiadau HCA

Dyma'r prif ffynonellau data y bydd arolygwyr yn eu defnyddio yn ystod arolygiad:

- y tablau perfformiad HCA diweddaraf gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;
- y targedau derbyn ar gyfer recriwtio HCA fel y cânt eu cymhwyso i'r darparwr HCA;
- data arolwg cyrchfan gan y darparwr HCA a Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru;
- data ehangu cyfranogiad, fel cyfraddau cyfranogi, monitro ethnig ac anabledd;
- graddau hyfforddeion ac adborth ysgrifenedig ar gyfer profiad ysgol;
- graddau hyfforddeion ac adborth ysgrifenedig ar gyfer aseiniadau;
- marciau modiwl/rhaglen;
- tueddiadau ym mherfformiad hyfforddeion;
- gwybodaeth o'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol; a
- chanlyniadau unrhyw arolygon a gynhaliwyd gan y darparwr HCA, fel arolygon boddhad hyfforddeion, arolygon diwedd modiwl hyfforddeion, arolygon boddhad ysgolion partneriaeth.

Bydd darparwyr HCA yn casglu data arall yn dibynnu ar faterion y maent wedi'u nodi ac/neu'n ymchwilio i drywyddau ymholi sydd wedi'u hanelu at wella'r ddarpariaeth HCA. Bydd arolygwyr yn ystyried y data hwn pan fo'n berthnasol i'r arolygiad.

Y ffocws allweddol i arolygwyr fydd ystyried pa mor dda y mae darparwyr HCA yn defnyddio'r data hwn i sicrhau gwelliant parhaus.

## Atodiad 5: Arweiniad ar weithgarwch dilynol

**Cefndir**

Yn ystod yr arolygiad craidd, bydd y tîm arolygu yn ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar y darparwr HCA.

Mae pedwar math o weithgarwch dilynol:

1 **Astudiaeth achos arfer ragorol**
2 **Monitro gan yr arolygydd cyswllt**
3 **Monitro gan dîm Estyn**
4 **Ailarolygiad**

Mae'r gweithgarwch dilynol cyntaf yn cynnwys gweithredu gan y darparwr i lunio astudiaeth achos arfer ragorol i'w lledaenu gan Estyn. Monitro gan arolygydd cyswllt yw'r ail weithgarwch dilynol. Fel arfer, ymweliad monitro gan dîm Estyn yw'r trydydd gweithgarwch dilynol. Disgwylir i'r gweithgarwch dilynol olaf, sef ailarolygiad, sy'n dibynnu ar y materion dan sylw, ddigwydd ar y cyd â gweithdrefnau Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar gyfer mynd i'r afael â diffyg cydymffurfio â gofynion achredu a thynnu achrediad yn ôl. Ar wahân i'r astudiaeth achos arfer orau, mae'r gweithgarwch dilynol yn cynnwys lefelau cynyddol o ymyrraeth yn ôl yr angen.

Ym mhob un o'r pedwar math o weithgarwch dilynol, cyn pen pum niwrnod o ddiwedd yr arolygiad, bydd yr ACof:

- yn llenwi'r adran berthnasol o'r FfF adrodd;
- yn rhoi'r FfF Adrodd wedi'i llenwi yn adran dogfennau arolygu'r YAR; ac
- yn rhoi gwybod i'r CydA dynodedig drwy neges e-bost ac yn anfon copi i flwch negeseuon y CydA yn ic@estyn.llyw.cymru

### 1 Astudiaeth achos arfer ragorol

Os bydd y darparwr yn cael barn ragorol am unrhyw ddangosydd ansawdd, yna bydd y tîm arolygu wedi nodi un neu fwy o enghreifftiau o bosibl o arfer sy'n arwain y sector sy'n haeddu cael ei efelychu ac yn hawlio ei lledaenu yn ehangach. Dylid trafod y posibilrwydd hwn yn ystod cyfarfodydd tîm, pan fydd arfer ragorol sy'n arwain y sector wedi bod yn ystyriaeth allweddol wrth lunio unrhyw farn ragorol.

Mewn achosion felly, bydd yr arolygydd cofnodol yn gwahodd y darparwr i baratoi un neu ddwy o astudiaethau achos ysgrifenedig ar feysydd cytûn sydd ag arfer ragorol. Ni fydd pob astudiaeth achos yn fwy na 600 o eiriau a gallai gynnwys unrhyw ddeunydd enghreifftiol priodol,[4] yn disgrifio'r arfer sy'n arwain y sector. Dylid esbonio'n glir i'r darparwr HCA bod yr arolygiaeth yn cadw'r hawl i olygu'r cynnwys ac arddull y cyflwyno. Dylai'r astudiaeth achos ddisgrifio cyd-destun a chefndir yr arfer orau, union natur y strategaeth neu'r gweithgarwch, a beth fu'r effaith ar ddeilliannau ar gyfer yr hyfforddeion. Rhaid i'r astudiaeth achos fod yn un y gall darparwyr HCA eraill graffu arni a'i hystyried yn arfer sy'n arwain y sector.

[4] Mae angen y cliriad angenrheidiol ar gyfer delweddau ffotograffig o blant a phobl ifanc.

Dylid ysgrifennu'r astudiaeth achos ar y templed a ddarparwyd gan yr Arolygydd Cofnodol a'i hanfon i Estyn cyn pen pedair wythnos o ddiwedd yr arolygiad. Dylid cyflwyno llythyr neu e-bost gyda'r astudiaeth achos yn dangos ei bod wedi'i chymeradwyo i'w defnyddio gan yr arolygiaeth, a'i llofnodi gan uwch arweinydd y ddarpariaeth HCA.

Yn ddiweddarach, gellir gwahodd y darparwr hefyd i ddangos ei arfer sy'n arwain y sector yn un o gynadleddau Estyn ar arfer orau. Gellid lledaenu'r enghraifft trwy gyfryngau amrywiol, gan gynnwys gwefan yr arolygiaeth, cylchlythyrau, cyhoeddiadau arfer orau ar gyfer y sector, yn Adroddiadau Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi (PAEM) ac mewn digwyddiadau arfer orau. Fel arfer bywyd cyhoeddi o dair blynedd fydd gan astudiaethau achos. Os cânt eu cyhoeddi ar wefan Estyn, cânt eu tynnu ar ôl yr amser hwn, fel arfer, er mwyn sicrhau eu bod yn aros yn amserol ac ar flaen y gad o ran arfer ragorol.

### 2 Monitro gan yr arolygydd cyswllt

Mae angen yr ail weithgarwch dilynol pan nodir bod y darparwr HCA yn ddarparwr da yn gyffredinol, ond gall fod ganddo nifer fach o feysydd penodol i'w gwella sy'n gofyn am fonitro er mwyn sicrhau gwelliant. Mewn achosion felly, gall y ddwy farn gyffredinol ar gyfer y darparwr fod yn dda, ond gellir barnu bod nifer fach o ddangosyddion ansawdd yn ddigonol, gan nodi rhai meysydd i'w gwella.

Os bernir bod angen i'r darparwr gael ei fonitro gan yr arolygydd cyswllt, dylai'r arolygydd cofnodol ddweud wrth uwch arweinydd y ddarpariaeth HCA ar ddiwedd yr arolygiad craidd bod y tîm wedi llunio'r farn hon, a rhoi gwybod i'r rheolwyr perthnasol yn yr arolygiaeth.

### 3 Monitro gan dîm Estyn

Fel arfer, ymweliad monitro gan dîm o arolygwyr Estyn fydd y trydydd math o weithgarwch dilynol. Fel arfer, bydd y lefel hon o weithgarwch yn ofynnol pan fydd o leiaf un o'r barnau cyffredinol ar gyfer darparwr HCA mewn arolygiad craidd yn ddigonol, ond nid yw'r darparwr yn peri pryder i'r graddau bod angen ailarolygiad arno ar hyn o bryd.

I gael y lefel hon o weithgarwch dilynol, byddai cwestiynau allweddol neu ddangosyddion ansawdd yn cael eu barnu yn ddigonol o leiaf. Byddai'n bosibl bod o leiaf rai cwestiynau allweddol a dangosyddion ansawdd wedi'u barnu yn dda. Fodd bynnag, byddai gan y darparwr rai meysydd pwysig i'w gwella y mae'n ofynnol eu monitro.

Os bernir bod angen ymweliad monitro gan Estyn ar y darparwr, dylai'r arolygydd cofnodol ddweud wrth uwch arweinydd y darparwr HCA ar ddiwedd yr arolygiad craidd bod y tîm wedi llunio'r farn hon, a rhoi gwybod i'r rheolwyr perthnasol yn Estyn.

Yn amodol ar safoni, bydd yr arolygiaeth yn ysgrifennu llythyr i'r darparwr, ac yn anfon copi ohono i CCAUC, yn nodi'r meysydd y mae angen eu gwella ac yn esbonio'r gweithgarwch monitro a fydd yn cael ei gynnal. Fel arfer, bydd tîm bychan

o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r darparwr i farnu cynnydd tua blwyddyn yn ddiweddarach. Os bydd y tîm yn barnu nad oes cynnydd digonol wedi'i wneud, a/neu fod y rhagolygon gwella yn anfoddhaol, yna gellir barnu bod angen gwelliant sylweddol ar y darparwr HCA, a gallai hyn arwain at ailarolygiad.

## 4 Ailarolygiad a mynd i'r afael â diffyg cydymffurfio â'r meini prawf ar gyfer achredu darparwyr HCA

Ailarolygiad wedi'i sbarduno yn sgil y ffaith fod y darparwr wedi cael 'Anfoddhaol' am y naill neu'r llall o'r ddwy brif farn, neu'r ddwy (deilliannau neu ragolygon gwella), neu 'Anfoddhaol' am unrhyw ddau o'r cwestiynau allweddol fydd y pedwerydd math o weithgarwch dilynol. Bydd darparwyr HCA sy'n cael eu rhoi yn y lefel hon o weithgarwch dilynol (ailarolygiad) yn cynnwys y rhai:

- sy'n methu darparu safon dderbyniol o addysg neu hyfforddiant;
- lle nad yw arweinwyr yn dangos y gallu i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol; a/neu
- lle nad yw'r ddarpariaeth, neu agweddau ar y ddarpariaeth, yn cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon neu agweddau eraill ar y meini prawf ar gyfer achredu darparwyr HCA. Disgwylir hefyd na fydd unrhyw ddarparwr sydd yn y ddau gategori cyntaf, yn cydymffurfio â'r meini prawf ar gyfer achredu.[5]

Pan na fydd y ddarpariaeth neu agweddau ar y ddarpariaeth yn cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer HCA neu agweddau eraill ar y meini prawf ar gyfer achredu darparwyr HCA, bydd gweithdrefnau CCAUC ar gyfer mynd i'r afael â diffyg cydymffurfio yn cael eu rhoi ar waith. (Trowch at gylchlythyr W08/17HE CCAUC i gael mwy o fanylion am y gweithdrefnau.)

Bydd Estyn yn hysbysu CCAUC am ei farn ynghylch diffyg cydymffurfio o fewn dwy wythnos waith o gwblhau'r arolygiad gwreiddiol. Ni fydd hyn yn hwyrach na'r dyddiad y mae Estyn yn anfon yr adroddiad arolygu terfynol drafft at y darparwr.

Bydd CCAUC yn gofyn i'r darparwr gyflwyno cynllun gweithredu ac amserlen i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd a sicrhau cydymffurfio. Bydd Estyn yn gofyn i'r darparwr ddarparu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r holl faterion a nodwyd yn yr arolygiad, gan gynnwys materion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio. Yn ymarferol, efallai mai'r darparwr sy'n paratoi un cynllun gweithredu ond gyda rhannau ar wahân, fel bod CCAUC yn derbyn y rhan ynglŷn â materion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio ac Estyn yn derbyn y cynllun gweithredu cyfan.

Yn yr achos annhebygol nad yw diffyg cydymffurfio â'r meini prawf ar gyfer achredu darparwyr HCA dan sylw, bydd yr ailarolygiad o ddarparwr sy'n methu darparu safon dderbyniol o addysg neu hyfforddiant neu pan nad yw arweinwyr yn dangos y gallu i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol yn digwydd rhwng 12-18 mis ar ôl yr arolygiad craidd. Bydd y timau ail-arolygu yn cynnwys tri AEM am bum niwrnod.

[5] Sylwer: Er ei bod yn annhebygol, os bydd Estyn yn nodi unrhyw dystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio â'r meini prawf ar gyfer achredu fel darparwyr HCA yn ystod ei arolygiad, ond nad yw'n rhoi barn anfoddhaol, bydd Estyn, serch hynny, yn cyfeirio'r diffyg cydymffurfio at CCAUC.

Pan na chydymffurfir â'r meini prawf ar gyfer achredu darparwyr HCA, bydd Estyn yn cytuno ar amserlen gyda CCAUC yn hysbysu'r darparwr HCA ynglŷn â'r diffyg cydymffurfio. Fel arfer, dylid cwblhau'r ailarolygiad o fewn blwyddyn o ddyddiad y llythyr gwreiddiol gan CCAUC yn rhoi gwybod i'r darparwr HCA am y diffyg cydymffurfio. Gellir ymestyn hyn i uchafswm o 18 mis os yw CCAUC, gyda chyngor gan Estyn, yn ystyried bod hyn yn briodol. Yn dibynnu ar natur diffyg cydymffurfio, gellir disgwyl bod yr amserlen ar gyfer arolygiad yn cynnwys ymweliad, neu ymweliadau cynnydd dros dro gan Estyn yn ogystal ag ailarolygiad terfynol.

Bydd cynnydd anfoddhaol, gan gynnwys diffyg cydymffurfio parhaus â'r meini prawf ar gyfer achredu, yn cael ei adrodd i CCAUC a fydd wedyn efallai yn defnyddio ei weithdrefnau ar gyfer tynnu'r achrediad yn ôl. Bydd yr arolygiaeth yn hysbysu'r darparwr HCA, CCAUC a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd am ei benderfyniad yn ysgrifenedig.